

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Nodyn Cyngor Technegol 12

Dylunio

Mawrth 2016

Tŷ Pren © Feliden Fowles

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27918 ISBN digidol 978 1 4734 5864 2

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Diffinio Dylunio | 6 |
| | Amcanion dylunio da | 7 |
| 3 | Y Broses Ddylunio | 9 |
| | Ystyried materion dylunio yn gynnar ac yn barhaus | 9 |
| | Cydweithio | 9 |
| | Cyfundrefn gynllunio ragweithiol | 10 |
| | Sgiliau dylunio | 10 |
| | Sut mae sicrhau dylunio da | 11 |
| 4 | Sicrhau Dylunio Da | 13 |
| | Sut mae mynd ati | 13 |
| | Arfarnu'r cyd-destun | 13 |
| | Sicrhau atebion dylunio | 17 |
| | Mynediad | 18 |
| | Cymeriad | 19 |
| | Diogelwch cymunedol | 21 |
| | Cynaliadwyedd amgylcheddol | 22 |
| | Symud | 24 |
| 5 | Asesu Materion Dylunio | 27 |
| | Materion trosfwaol | 27 |
| | Cyd-destun | 33 |
| | Math o ddatblygiad | 41 |
| | Materion manwl | 46 |
| 6 | Awdurdodau Cynllunio Lleol | 55 |
| | Polisi a chyngor dylunio | 55 |
| | Cynlluniau datblygu | 55 |
| | Datblygu polisïau adeiladau cynaliadwy lleol | 56 |
| | Safleoedd strategol | 56 |
| | Canllawiau cynllunio atodol | 58 |
| | Rheoli datblygu | 62 |
| | Datganiadau dylunio a mynediad | 62 |
| | Trafodaethau cyn cyflwyno cais | 62 |
| | Sgiliau | 63 |

Atodiadau

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Ffynonellau a gwybodaeth bellach | 65 |
| 2 | Cysylltiadau | 68 |
| 3 | Cydnabyddiaeth | 69 |

Y Senedd, Caerdydd



# 1. Cyflwyniad

1.1 Dylai'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hwn gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru[1] sy'n nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried Polisi Cynllunio Cymru, TANs a Chylchlythyron wrth baratoi cynlluniau datblygu. Gallant fod yn berthnasol i'r penderfyniadau a wneir ar geisiadau cynllunio unigol, a bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygwyr Cynllunio yn eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar apelau a cheisiadau cynllunio a elwir i mewn.

1.2 Mae dogfennau cyfeirio defnyddiol (a restrir yn y troednodiadau neu yn Atodiad 3) yn darparu gwybodaeth ychwanegol y gellir ei darllen ar y cyd â'r TAN hwn.

1.3 Mae TAN 12: Dylunio, (2014) a Chylchlythyr 16/94:Cynllunio i Atal Troseddu (Saesneg yn unig) yn cael eu dileu drwy hyn.

## Y Cyd-destun

1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisi cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru o ran 'Hybu cynaliadwyedd drwy ddylunio'n dda' a 'Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy'. Mae hyn yn cynnwys rôl yr awdurdodau cynllunio lleol wrth sicrhau dylunio cynaliadwy da.

1.5 Mae'n orfodol cyflwyno datganiadau dylunio a mynediad gyda rhai ceisiadau cynllunio a cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Ceir canllawiau manwl ar ddatganiadau dylunio a mynediad mewn canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru[2].

## Diben

1.6 Diben y TAN hwn yw rhoi cyngor i bawb sy'n ymwneud â dylunio datblygiadau ynghylch sut mae mynd ati, drwy'r gyfundrefn gynllunio, i hwyluso'r gwaith o 'Hybu cynaliadwyedd drwy ddylunio'n dda' a 'Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy.

1.7 Nid yw'r TAN hwn yn destun hollgynhwysfawr am ddylunio'n dda. Efallai y bydd TANs[3] a chanllawiau eraill, fel y Manual for Streets[4], hefyd yn ymdrin â materion dylunio sy'n berthnasol i bynciau penodol neu i fathau penodol o ddatblygiadau.

[1] *Llywodraeth Cymru (2016) Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8) (www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy)*

[2] *Llawlyfr Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru (2016) (http://gov.wales/topics/planning/?skip=1&lang=cy)*
*Comisiwn Dylunio Cymru (2014) Design and Access Statements in Wales (http://dcfw.org/design-and-access-statements-in-wales/)*
*Llywodraeth Cymru (2016) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio – Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy)*

[3] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan8/?skip=1&lang=cy)*
*Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?skip=1&lang=cy)*

[4] *Adran Drafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Manual for Streets (www.gov.uk/government/publications/designing-residential-streets-manual)*
*The Chartered Institute of Highways and Transportation (2010) Manual for Streets 2 (www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2)*

1.8 Ni ddylai ystyriaethau dylunio, fel y dylanwadir arnynt drwy'r gyfundrefn gynllunio, ddyblygu rôl y Rheoliadau Adeiladu. Fel rheol gyffredinol, mae cynllunio'n ymdrin ag ymddangosiad allanol adeilad, a'i berthynas â'i gyd-destun. Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn delio â pherfformiad technegol adeiledd a gwasanaethau adeilad. Fodd bynnag, mae angen i ddyluniad cychwynnol adeilad yn y broses gynllunio ystyried gallu'r adeilad i fodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu. Dylai dylunio felly fod yn ystyriaeth sylfaenol o'r cychwyn ac ni ddylid ymdrin ag ef na'i ddatblygu ar wahân.



Coach House, Caerdydd

# 2. Diffinio Dylunio

2.1 Mae dyluniad ein pentrefi, ein trefi, ein dinasoedd a'r dirwedd drefol a gwledig yn fynegiant pwysig o'n cenedl a'n diwylliant. Mae dylunio yn bwysig o safbwynt ansawdd ein bywydau, ac ansawdd tirwedd a threfweddau amrywiol Cymru – mae'n helpu i gynnal delwedd gadarnhaol o Gymru.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau dylunio da yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Rhaid i'r dylunio fod yn addas i'w bwrpas, a rhaid iddo fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol a hybu datblygu economaidd a chynhwysiant cymdeithasol ar bob lefel ledled Cymru – yn amrywio o estyniadau at dai i gymunedau newydd defnydd cymysg.

2.3 I gyflawni hyn, mae angen i bawb sy'n gwneud penderfyniadau ar draws Cymru ddeall pwysigrwydd dylunio da a sut mae modd ei wireddu.

2.4 Caiff dylunio ei ddiffinio ym Mholisi Cynllunio Cymru fel:

> "y berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. I greu datblygiad cynaliadwy, rhaid i'r dylunio fynd y tu hwnt i estheteg a chynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad, gan gynnwys adeiladu, gweithredu a rheoli'r datblygiad, a'i berthynas â'i gwmpasoedd."

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio:

> "Mae dylunio da hefyd yn ddylunio cynhwysol. Egwyddorion dylunio cynhwysol yw ei fod yn rhoi pobl wrth galon y broses ddylunio, yn cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth, yn cynnig dewis lle na all un ateb dylunio ddarparu ar gyfer y defnyddwyr i gyd, yn darparu ar gyfer hyblygrwydd yn y defnydd, ac yn darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n hwylus a phleserus i bawb eu defnyddio."



01 Canolfan Gelf Rhuthun

*Dylunio arloesol sy'n ymgorffori cynaliadwyedd, pensaernïaeth ac amgylchfyd cyhoeddus da*

2.5 Nid yw dylunio da yn anochel. Rhaid wrth broses gydweithredol, greadigol, gynhwysol sy'n datrys problemau ac yn arloesi – gan ymgorffori cynaliadwyedd, pensaernïaeth, creu ymdeimlad o le, amgylchfyd cyhoeddus, tirwedd a seilwaith.

2.6 Ni ddylai dylunio sy'n amhriodol yn ei gyd-destun, neu nad yw'n manteisio ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth ardal, gael ei dderbyn oherwydd bydd yn cael effaith niweidiol ar gymunedau sy'n bodoli'n barod.

2.7 Er mwyn ymdrin â dylunio mewn ffordd gyfannol, mae gofyn symud y pwyslais oddi ar ddibyniaeth lwyr ar safonau rhagnodol, sy'n gallu mygu arloesedd a chreadigrwydd. Yn hytrach, dylai pawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio ganolbwyntio o'r cychwyn ar gyflawni cyfres o amcanion sy'n rhan o ddylunio da (Ffigur 1). Bydd angen i'r ymateb dylunio – a fydd, wrth gwrs, yn ymateb i'r cyd-destun lleol – sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu gwireddu gydol oes y datblygiad (o'r caffael hyd at yr adeiladu a'r cwblhau a'r defnyddio maes o law). Gellir cyflwyno'r dadansoddiad hwn a'r weledigaeth ar gyfer cynllun mewn datganiad dylunio a mynediad pan fo angen datganiad o'r fath.

2.8 Mae Ffigur 1 yn dangos rôl dylunio yn ei gyd-destun i gyflawni'r amcanion allweddol o ddylunio da. Bydd y penodau dilynol yn rhoi canllawiau pellach ar yr amcanion hyn.

Ffigur 1: Amcanion dylunio da



Tŷ Esplanade, Porthcawl



# 3. Y Broses Ddylunio

3.1 Mae'r diffiniad o ddylunio at ddibenion cynllunio yn pwysleisio'i rôl yn sicrhau ymateb dylunio mwy cyfannol i ddatblygu cynaliadwy. Dylai'r broses sy'n gyrru dyluniad datblygiad ystyried oes lawn unrhyw ddatblygiad o'r cychwyn, a dylai gwmpasu'r elfennau canlynol. Mae Ffigur 2 yn dangos sut mae sicrhau dylunio da.

## Ystyried materion dylunio yn gynnar ac yn barhaus

3.2 Mae ystyried materion dylunio yn gynnar yn y broses, ymhell cyn unrhyw gais gynllunio, yn hanfodol er mwyn cael dylunio da. Rhaid ystyried cyd-destun y safle a datblygu gweledigaeth ac egwyddorion dylunio y cytunir arnynt o'r cychwyn, a rhaid i'r rhain barhau'n ganolog i'r broses esblygu. Dylid osgoi pennu'r manylion yn rhy gynnar yn y broses ac mae dealltwriaeth glir o oblygiadau tymor hir penderfyniadau dylunio hefyd yn hanfodol o'r cychwyn. Mae datganiad dylunio a mynediad yn werthfawr wrth bwyso a mesur ystyriaethau o'r fath.

## Cydweithio

3.3 Mae dull gweithredu amlddisgyblaethol ac uchelgais cyffredin sy'n anelu at waith o ansawdd da yn bwysig er mwyn sicrhau dylunio da a dylai hynny fod yn amlwg ar hyd pob cam o'r broses. Y ffordd orau o sicrhau hynny yw drwy weithwyr proffesiynol sy'n darparu cyngor arbenigol megis: cynllunwyr, penseiri, dylunwyr trefol, penseiri tirwedd, peirianwyr trafnidiaeth, swyddogion mynediad, swyddogion dylunio i atal troseddu, cymdeithasau dinesig lleol ac eraill. Mae ymgysylltu â'r rheini sy'n caffael, yn hyrwyddo ac yn cyllido'r datblygu yn gynnar yn y broses yn hanfodol er mwyn helpu i gael pawb i ymrwymo i ddylunio o ansawdd da.

3.4 Dylid canolbwyntio'n arbennig ar roi llais yn y broses ddylunio o'r dechrau i'r diwedd i'r rhai a fydd yn defnyddio'r datblygiad maes o law a hefyd i'r rhanddeiliaid, er mwyn meithrin ymdeimlad o berchenogaeth a chonsensws sy'n bwysig i lwyddiant hirdymor y prosiect.



02 Ymgynghori ar waith

*Cynnwys y gymuned leol ac arbenigwyr er mwyn dylunio'n dda*

## Cyfundrefn gynllunio ragweithiol

3.5 Dylai'r gyfundrefn gynllunio fod yn rhagweithiol yn codi safonau dylunio ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion dylunio ymysg y cyhoedd yn gyffredinol a'r sector preifat. Mae modd gwneud hyn ym mhob maes o weithgarwch cynllunio; o bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol; cynlluniau datblygu; canllawiau cynllunio atodol; i waith rheoli datblygu; dylunio a gwarchod y dirwedd; cynlluniau adfywio trefol; trwy bartneriaethau ac mewn prosiectau a gyllidir ag arian cyhoeddus megis ysgolion, llyfrgelloedd ac ysbytai. Dylai ystyriaethau dylunio fod yn rhan o bob agwedd o'r broses ddatblygu o'r syniad cychwynnol a'r dylunio manwl, hyd at yr adeiladu, y meddiannu, y rheoli a'r gweithredu.

3.6 Mae gan awdurdod cynllunio lleol rôl ddeuol o ran sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol wrth ddatblygu polisïau a chanllawiau dylunio ac wrth ddarparu gwybodaeth am faterion dylunio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd helpu ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr i ymateb yn effeithiol i'r broses gynllunio a dylunio, drwy gynghori yn ogystal â rheoleiddio. Bydd trafodaethau a chyngor ar baratoi datganiad dylunio a mynediad cyn iddynt gyflwyno cais yn rhoi eglurder i ymgeiswyr.


## Sgiliau dylunio

3.7 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Gomisiwn Dylunio Cymru yn 2002, i hyrwyddo dylunio da. Mae'r Comisiwn yn dal i ddylanwadu, addysgu a lledaenu cyngor dylunio i bawb sy'n ymwneud â dylunio'r amgylchedd adeiledig. Mae hefyd yn darparu hyfforddiant a gaiff ei deilwra'n bwrpasol ar eu cyfer i awdurdodau cynllunio lleol, ymgynghorwyr a'r sector preifat. Mae'r Comisiwn yn darparu gwasanaeth adolygiadau dylunio rhad ac am ddim, ac mae hwn yn fodd i ymgynghori'n gynnar â'i banel arbenigol annibynnol[5]. Gall ei sylwadau ar geisiadau fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi astudiaethau achos ac yn cynhyrchu canllawiau arfer da ar nifer o faterion yn ymwneud â dylunio, gan gynnwys datganiadau dylunio a mynediad.

3.8 Mae lefel uchel o sgiliau dylunio ac adeiladu yn bwysicach nag erioed mewn cymdeithas lle mae gofyn defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae'r angen i addasu adeiladau a mannau ar gyfer defnyddiau newydd, i gyd-fynd â datblygiadau technolegol sy'n digwydd yn gyflym, a'u defnyddio mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd, ynghyd â'r angen i ganfod atebion cynnal a chadw tymor hir, yn dibynnu ar sgiliau dylunio ac adeiladu da.

[5] *Comisiwn Dylunio Cymru (http://dcfw.org/)*

## Ffigur 2: Sut mae sicrhau dylunio da





# 4. Sicrhau Dylunio Da


## Sut mae mynd ati

4.1 Proses o ddadansoddi a syntheseiddio yw dylunio: dadansoddi, canfod a dehongli problemau a rhwystrau, a'u datrys wedyn drwy feirniadu, ymchwilio, datblygu a phrofi. Mae dylunio yn ffordd greadigol o arloesi ac ychwanegu gwerth. Mae dylunio'r amgylchedd adeiledig yn chwarae rhan allweddol mewn twf economaidd ac o ran gwella ansawdd y lleoedd yr ydym yn byw ac yn gweithio ynddynt.

4.2 Mae adeiladau, lleoedd cyhoeddus a mannau agored o fri yn creu etifeddiaeth gyfoethog ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau adeiladau a chymdogaethau hyblyg, sydd wedi cael eu dylunio'n dda ac y mae modd eu haddasu. Yr hyn yr ydym yn ei adeiladu yn awr fydd etifeddiaeth y dyfodol. Mae bob amser yn bwysig ystyried y mathau o leoedd yr ydym am eu cael, a bod yn effro i'r weledigaeth o amgylchfyd cyhoeddus o ansawdd uchel, strydoedd llawn bywyd a chymdogaethau prysur.

## Arfarnu'r Cyd-destun

4.3 Mae'r cyd-destun lleol yn cynnwys nodweddion yr ardal lle mae'r datblygiad a hefyd leoliad yr ardal honno. Mae hyn yn cynnwys hanes naturiol a dynol yr ardal, y mathau o aneddiadau, adeiladau a mannau agored; ei hecoleg a'i harchaeoleg; ei lleoliad a'r llwybrau a'r dyfrffyrdd sy'n mynd drwyddi. Mae darparu ymateb dylunio ystyrlon a chynaliadwy yn dibynnu ar ddeall y safle a'i gyd-destun agos ac ehangach, ac mae hynny'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio, yn enwedig ymgeiswyr cynllunio a'u hasiantau a'r rhai sy'n llunio ac yn gweithredu polisi a chanllawiau dylunio. Mae rhagor o arweiniad ar arfarnu'r cyd-destun i'w weld yn Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle[6].




03 Storfa gychod newydd, Penfro

*Dylunio cyfoes mewn cyd-destun hanesyddol*

4.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu polisi cenedlaethol ar ddylunio da, a dylai cynlluniau datblygu a Chanllawiau Cynllunio Atodol ddarparu cyd-destun clir o ran y gofynion dylunio yn yr ardal leol. Wrth arfarnu cyd-destun cynllun neu brosiect, bydd yn bwysig cyfeirio at amcanion dylunio da a phrofi sut mae'r cynigion yn adlewyrchu'r gofynion polisi lleol. Mewn datganiad dylunio a mynediad, gall yr ymgeisydd ddangos sut mae wedi arfarnu cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd a pholisi'r datblygiad, a sut mae'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a ddewiswyd ganddo yn adlewyrchu'r cyd-destun hwnnw.

4.5 Mewn nifer o achosion, bydd arfarniad o'r cyd-destun lleol yn amlygu patrymau datblygu neu dirwedd arbennig, a'r bwriad fydd cynnal y cymeriad hwnnw. Mae arfarnu yr un mor bwysig lle mae'r patrymau datblygu wedi methu ymateb i'r cyd-destun yn y gorffennol. Yn yr ardaloedd hyn, dylai'r arfarnu bwyntio at atebion sy'n gwrthdroi'r duedd.

[6] *Llywodraeth Cymru (2016) Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/?skip=1&lang=cy)*



04 | Parc Cathays, Caerdydd

*Perthynas ffurfiol rhwng adeiladau a gofodau*

4.6 Gellir defnyddio ystod o **dechnegau** i gynnal arfarniad cyd-destun, yn cynnwys arsylwi ac arolygon safle, adolygu cofnodion hanesyddol, cyfweliadau, archwilio mynediad, a dadansoddi ystadegau troseddu a gwybodaeth sy'n cael ei dal gan ymgymerwyr statudol ac asiantaethau, megis gweithredwyr cludo teithwyr a chyrff ymchwil manwerthu. Gall arfarnu'r cyd-destun fod yn fuddiol er mwyn dylanwadu ar gynlluniau datblygu.

4.7 Rhaid arfarnu adnoddau naturiol ardal cyn darparu atebion dylunio sy'n **gynaliadwy yn amgylcheddol**. Dylai arfarniad nodi'r cyfleoedd a gynigir gan safle neilltuol (e.e. ynni datganoledig) a chydnabod cyfyngiadau'r safle (e.e llifogydd, cyfyngiadau o ran cysylltiadau cludiant cyhoeddus). Dylai ganolbwyntio ar asedau ac adnoddau safle megis ffurf y datblygiad, priddoedd a daeareg, graddiant/topograffi, draeniad, tirwedd, ynni solar ac ynni gwynt yn ogystal â bywyd gwyllt, bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol. Dylai datblygiadau newydd harneisio adnoddau cynhenid neu "gyfalaf naturiol" y safle neu'r ardal er mwyn helpu i greu'r amodau ar gyfer datblygiad sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol. Yn arbennig, dylent ystyried mesurau i helpu i leihau'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd ac i ymgorffori gwytnwch yn y mesurau (lliniaru ac addasu). Gall arfarniad o effeithiau'r **newid yn yr hinsawdd** (megis tymheredd uwch, perygl llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol[7]) amlygu ble mae angen ymateb dylunio fel bod y datblygiad yn llai agored i niwed oherwydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.



05 | Capel a addaswyd, Rhodiad y Brenin, Tyddewi

*Mae dulliau traddodiadol o drin terfynau yn diffinio ardaloedd cyhoeddus a phreifat ac yn atgyfnerthu'r hunaniaeth leol unigryw*

4.8 Mae arfarnu **"cymeriad"** yn golygu ymdrin â'r topograffi; patrymau strydoedd hanesyddol, nodweddion archaeolegol, dyfrffyrdd, hierarchaeth datblygiadau a mannau agored, y defnyddiau mwyaf cyffredin yn yr adeiladau neu ar lawr, gwerth pensaernïol a gwerth hanesyddol, cymeriad y dirwedd, patrymau caeau a phatrymau defnydd tir, golygfeydd trawiadol (tua'r safle ac ohono), nenlinellau a fistâu, y prif ddefnyddiau a'r patrymau presennol, y dulliau o drin ffiniau, bioamrywiaeth leol, adnoddau naturiol a diwylliannol a nodweddion a thraddodiadau neilltuol lleol (a elwir hefyd yn elfennau cynhenid).

4.9 Bydd cyfleoedd ar gyfer **dylunio arloesol** yn dibynnu ar gyd-destun presennol y datblygiad, ac i ba raddau y mae nodweddion hanesyddol, pensaernïol, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal yn mynnu neu'n llesteirio ateb dylunio penodol. Wrth werthuso'r cyd-destun yn drylwyr, gellir cynnig awgrymiadau dylunio a fydd yn helpu i ysbrydoli ymateb dylunio arloesol sy'n diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol. Ni ddylai parchu'r cyd-destun o reidrwydd rwystro dylunio mewn arddull gyfoes.

[7] *Rhaglen Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd y Deyrnas Unedig (UKCIP) (www.ukcip.org.uk/)*

4.10 O ran arfarnu'r **berthynas rhwng gofod preifat a chyhoeddus** gellir canolbwyntio ar safleoedd lle mae bwlch yn torri'r llinell adeiladu gyffredin; gweddluniau cefn sydd yn y golwg; ar gyfran yr wynebau "gweithredol" (megis mynedfeydd a ffenestri siopau) mewn cyferbyniad â'r wynebau "marw" (megis waliau uchel a ffasadau gwag, gan gynnwys lefel y lloriau uchaf); dulliau o ddiffinio terfynau, fel waliau, ffensys a gerddi; y berthynas rhwng uchder yr adeiladau a'r gofod a amgaeir ganddynt; a phlanhigion neu nodweddion naturiol eraill, megis ffurf y tir, sy'n amgáu gofod.



06 | Canolfan Gelf Sain Dunwyd, Llanilltud Fawr

*Dyluniad cyfoes cynaliadwy ar gyfer estyniad*

4.11 Dylai arfarnu'r **dirwedd** ganolbwyntio ar ei hansawdd o safbwynt daeareg a geomorffoleg, llystyfiant a chynefinoedd, nodweddion gweledol a synhwyraidd a nodweddion hanesyddol a diwylliannol. Mae "LANDMAP" yn un dull o asesu ac mae iddo'r potensial i ddarparu fframwaith a sylfaen gwybodaeth y gellir datblygu dylunio a rheoli da ohoni. Mae asesiadau tebyg ar gael i fesur ansawdd y '**forwedd**'. Mae'r rhain yn nodi pa ardaloedd, nodweddion a phriodoleddau y mae'n bwysig eu cadw ar adeg pan mae ein hardaloedd arfordirol yn wynebu llawer o bwysau gan ddatblygiadau newydd. Mae Pennu Nodweddion Tirweddau Hanesyddol yn darparu lefel fwy manwl o asesu'r amgylchedd hanesyddol, ac mae astudiaethau wedi cael eu cynnal o'r holl ardaloedd sy'n gynwysedig ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Gallai arfarniadau manwl pellach o safle ddarparu gwybodaeth hefyd am hydroleg lleol, microhinsawdd, priddoedd, cytrefi o blanhigion a'u nodweddion a'r holl briodoleddau gweledol yn cynnwys golygfeydd a fistâu.

4.12 Wrth arfarnu'r **amgylchfyd cyhoeddus** dylid canolbwyntio ar nodweddion fel cyflwr, addasrwydd i'r pwrpas mewn hinsoddau sy'n newid, pa mor rhwydd ydyw i bawb ei ddefnyddio, diogelwch, cyfleustra, mwynhad, cyfraniad i'r hunaniaeth leol, a'r potensial i leihau annibendod ar y stryd. Trwy gynnal archwiliad o'r tirweddu caled a meddal, dodrefn stryd a dodrefn hamdden, arwyddion, priffyrdd, goleuadau, hwylustod mynediad, natur y defnydd a'r rheoli, gellir hwyluso'r gwaith o ddewis blaenoriaethau.

4.13 Dylid asesu **rhwyddineb symud a mynediad i bawb** i'r datblygiad ac oddi yno, ar y lefel strategol a lleol, gyda golwg ar hybu newid o ddefnyddio'r car tuag at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus a chydnabod yr angen i sicrhau gwell cysylltiadau o fewn ardaloedd a chydag ardaloedd cyfagos. Dylid ystyried maint a rhwyddineb cymharol symudiadau cerddwyr, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau symudedd neu nam ar y synhwyrau. Yn yr un modd, dylid ystyried maint a rhwyddineb symudiadau beiciau, trafnidiaeth gyhoeddus a cheir, a dylid hefyd nodi mannau lle ceir gwrthdaro, tagfeydd a chysylltiadau ledled yr ardal gyfan o amgylch y safle.



07 | Ardal yr Hen Fragdy, Caerdydd

*Defnyddio'r amgylchfyd cyhoeddus i greu ymdeimlad o le*

4.14 Wrth arfarnu eglurdeb yr ardal, dylid canolbwyntio ar dirnodau megis adeiladau allweddol neu nodweddion tirwedd, cyffyrdd, golygfeydd a fistâu, rhwystrau a therfynau. Gall y rhwystrau fod yn rhai ffisegol, megis afonydd, neu'n rhai ymddangosiadol fel traffig trwm. Bydd cydlyniant a chysylltiadau rhwng strydoedd lleol a'r rhwydwaith llwybrau troed hefyd yn bwysig.



08 | Treflun Rhuthun yn cynnwys y cloc

*Tirnodau lleol yn cyfrannu at eglurdeb*

4.15 Wrth arfarnu **addasadwyedd ac amrywiaeth**, dylid canolbwyntio ar y modd y defnyddir adeiladau yn ogystal â mannau agored, ac ar y ffactorau sy'n penderfynu ar y defnydd, megis patrwm, cyflwr, a chylchrediad yr adeiladau a'u haddasrwydd ar gyfer moderneiddio a defnydd newydd. Mewn perthynas â mannau agored, dylai'r pwyslais fod ar y cynllun, y microhinsawdd, y patrymau isrannu a'r gymysgedd o ran defnydd a deiliadaeth. Dylid hefyd ystyried yr hinsawdd y mae'r adeilad yn debygol o'i brofi yn ystod ei oes ac effaith hynny ar weithrediad y datblygiad.

Dylid seilio'r asesiad o werth am arian ar gostau "oes gyfan" datblygiad ac mae'n bwysig bod y goblygiadau rheoli a chynnal a chadw tymor hir sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau dylunio yn cael eu harchwilio'n llawn. Mae angen hefyd asesu'r costau cyfalaf mwy uniongyrchol.

## Sicrhau Atebion Dylunio

4.16 Mae sicrhau dylunio da yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio. Mae'n fynegiant ffisegol o'r amcanion dylunio (y datblygiad ar y ddaear) ac mae'n effeithio ar ansawdd ein bywydau. Ar sail y mynegiant hwnnw y bernir a yw'r amcanion dylunio wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Nodir isod rai ystyriaethau a allai fod yn berthnasol er mwyn cyflawni'r amcanion wrth lunio cynigion.

4.17 Dylai'r rhai sy'n ymwneud â'r broses ddylunio ystyried sut y mae'r agweddau canlynol ar eu datblygiad (o'r caffael i'r adeiladu hyd at y cwblhau a'r tu hwnt h.y. oes y datblygiad) yn bodloni amcanion dylunio da ac yn ymateb i'r cyd-destun lleol. Gellir cyflwyno'r dadansoddiad hwn a'r weledigaeth ar gyfer y cynllun yn y datganiad dylunio a mynediad.

4.18 Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am amcanion allweddol dylunio da, gan adlewyrchu pum agwedd ar ddylunio da. Mae hyn yn cynnwys sut mae ymateb i'r amcanion hyn yn dilyn arfarnu'r cyd-destun.



09 Canolfan yr Amgylchedd, Abertawe

*Dynlunio arloesol yn yr estyniad i Ganolfan yr Amgylchedd*

4.19 Nid yw'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd ac maent yn aml yn ategu'i gilydd. Lle ceir anghytuno, bydd angen i'r ymgeisydd ystyried hyn o'r cychwyn a bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol ei ystyried wrth benderfynu. Gallai'r perthnasedd a'r pwysau neilltuol sydd ynghlwm wrth bob un o'r amcanion isod ddibynnu ar bolisi lleol, amgylchiadau a natur y datblygiad arfaethedig. Dylid defnyddio hyn fel arweiniad ar ddechrau'r prosiect. Mae'r materion dylunio, sydd wedi'u cynnwys yn Adran 5, yn ymhelaethu ar y materion y gallai fod angen eu hystyried yn y broses ddylunio.

# Mynediad

Hygyrchedd – mynediad rhwydd i bawb i'r datblygiad ac i bob elfen ar y safle

**Amcan** – Sicrhau mynediad rhwydd i bawb

## Ymateb Dylunio ar ôl Arfarnu'r Cyd-destun

- Drwy fabwysiadu egwyddorion dylunio cynhwysol sy'n sicrhau darpariaeth ddigonol i bawb gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau symudedd, nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu.

## Atebion Dylunio

- Y ffordd y mae'r datblygiad yn ymdrin ag anghenion mynediad pob person a allai ei ddefnyddio;
- Sut mae modd ei addasu ar gyfer cyd-destunau a gofynion cynwysoldeb sy'n amrywio dros amser;
- Y ffordd y mae'r cynllun yn ateb gofynion ymarferol megis mynediad i gerbydau argyfwng ac ar yr un pryd yn cynnwys cysylltiadau clir a mynediad rhwydd i bawb, yn enwedig cerddwyr a beicwyr.

## Materion Dylunio Perthnasol (gweler adran 5)

| | |
|---|---|
| Dylunio Cynhwysol | Amgylchfyd Cyhoeddus |
| Diogelwch | |



10 Rhodfa Castell Caernarfon

*Gwelliannau esthetig i fynedfa i wella hygyrchedd i Gastell Caernarfon*



11 Canolfan Feddygol Llanfyllin

*Darparu mynediad ar lefel y stryd*

## Cymeriad

**Amcanion**

– Cynnal neu wella cymeriad lleol

– Hyrwyddo datblygu eglur

– Hyrwyddo perthynas lwyddiannus rhwng gofod cyhoeddus a phreifat

– Hyrwyddo ansawdd, dewis ac amrywiaeth

– Hyrwyddo dylunio arloesol

### Ymateb Dylunio ar ôl Arfarnu'r Cyd-destun

Drwy ymateb i:

- dirweddau a threfweddau, diwylliant a bioamrywiaeth
- patrymau a ffurfiau datblygu sy'n arbennig i'r ardal leol
- adeiladau presennol, seilwaith, tirwedd drefol/wledig a chelfyddyd gyhoeddus
- ffiniau clir a llinellau adeiladu sefydledig
- priodoldeb y defnyddiau a'r cymysgedd defnyddiau a dwyseddau
- nodweddion a thirnodau sy'n hawdd eu hadnabod a'u deall.

### Atebion Dylunio

- **Dylunio'r dirwedd –** y ffordd y bydd y tir yn cael ei drin (ar wahân i adeiladau) i'r diben o wella neu amddiffyn amwynderau'r safle a'r ardal y saif ynddi.
- **Graddfa –** datblygiad mewn perthynas â'i amgylchedd, yn cynnwys uchder, lle a hyd pob adeilad arfaethedig yn y datblygiad; sut mae crynodiad y cynnig yn cyfrannu at yr hierarchaeth ddatblygu bresennol i atgyfnerthu cymeriad; sut mae'r crynodiad a'r uchder yn effeithio ar breifatrwydd, golau haul a microhinsawdd; a sut mae'r uchder yn effeithio ar apêl a diogelwch gofod cyhoeddus yn y cyffiniau.
- **Cyfanswm –** nifer yr unedau preswyl arfaethedig neu'r gofod llawr ar gyfer pob defnydd arfaethedig a fydd yn rhan o'r datblygiad: sut y bydd y dwysedd a'r cymysgedd arfaethedig yn ysgogi gwahanol ddefnyddiau gan wahanol sectorau o'r gymuned. Rhagddarparu ar gyfer newid posibl yn natur ac anghenion y preswylwyr a sut mae'r cynnig yn rhagddarparu ar gyfer defnyddio tir yn effeithlon, yn y tymor byr a'r tymor hir, gan ddiogelu ansawdd bywyd ar yr un pryd. Lle mae hynny'n berthnasol, ystyried sut mae'r datblygiad yn cynnig atebion arloesol i ddarparu ar gyfer dwysedd uwch, gan ystyried effaith dwysedd uwch ar y cyffiniau.
- **Cynllun y datblygiad –** y ffordd y mae'r cynllun yn integreiddio'r datblygiad yn ei amgylchedd ac, ar yr un pryd, yn ystyried cyfeiriadedd yr adeilad er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd ynni a'r cysylltiadau gorau posibl (y ffordd y mae llwybrau a mannau agored o fewn y datblygiad yn cael eu darparu a'u lleoli a'u cyfeiriadedd mewn perthynas â'i gilydd ac ag adeiladau a gofodau y tu allan i'r datblygiad); sut mae'r ardal allanol yn cyfrannu at y datblygiad ac yn cael ei defnyddio i wneud y datblygiad yn fwy cynaliadwy; pam mai'r safle a ddewiswyd yw'r lleoliad gorau a sut mae'n cysylltu â defnyddiau eraill cyfagos.

- **Ymddangosiad –** (dyluniad allanol – gan gynnwys defnyddiau) – mae hyn yn golygu'r agweddau ar adeilad neu le o fewn y datblygiad sy'n pennu pa argraff weledol a grëir gan yr adeilad neu'r lle, gan gynnwys ffurf adeiledig allanol y datblygiad, ei bensaernïaeth, defnyddiau, addurno, goleuadau, lliw a gwead.

| **Materion Dylunio Perthnasol** | (gweler adran 5) |
|---|---|
| Dylunio Cynhwysol | Yr Amgylchedd Hanesyddol |
| Tirwedd a Threfwedd | Adfywio Trefol |
| Ardaloedd Gwledig | Adeiladau Cyhoeddus |
| Dyluniad a Chynllun Tai | Ardaloedd Cyflogaeth ac Ardaloedd Masnachol |
| Amgylchfyd Cyhoeddus | Celfyddyd Gyhoeddus |
| Arwyddion a Hysbysebion | Diogelwch |



12 | Y Nook, Oxwich

*Defnyddio deunyddiau sensitif i ychwanegu at gymeriad yr ardal*



13 | Tŷ Gwala, Rudry

*Gall defnyddio deunyddiau amrywiol lleol wella'r cymeriad lleol*




14 | The Hand, Sgwâr Lancaster, Llanrwst

*Adnewyddu sensitif i wella amgylchedd y stryd a'r adeiladau cyfagos*

# Diogelwch Cymunedol

| | |
|---|---|
| **Amcanion** | – Sicrhau mannau cyhoeddus deniadol, diogel<br>– Diogelwch drwy wyliadwriaeth naturiol |

## Ymateb Dylunio ar ôl Arfarnu'r Cyd-destun

Drwy hyrwyddo:

- ansawdd uchel yn yr amgylchfyd cyhoeddus
- llwybrau sy'n addas i'w diben ac a fydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol a hamdden diogel sy'n diwallu anghenion pob aelod o gymdeithas
- ymdeimlad o berchenogaeth a chyfrifoldeb dros bob rhan o'r datblygiad.

## Atebion Dylunio

- **Atal troseddu –** y ffordd y caiff datblygiad ei ddylunio i ddiogelu eiddo drwy ganiatáu gwyliadwriaeth naturiol; gwella diogelwch y gymuned a'r unigolyn drwy leihau gwrthdaro rhwng gwahanol fathau o ddefnydd; a hyrwyddo ymdeimlad o berchenogaeth a chyfrifoldeb.

## Materion Dylunio Perthnasol

(gweler adran 5)

| | |
|---|---|
| Diogelwch | Adfywio Trefol |
| Dyluniad a Chynllun Tai | Ardalaeth Cyflogaeth<br>ac Ardaloedd Masnachol |



15 Drybridge, Sir Fynwy

*Hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth*

# Cynaliadwyedd Amgylcheddol

| **Amcanion** | – Sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau naturiol a'u gwarchod<br>– Cynyddu bioamrywiaeth<br>– Dylunio ar gyfer newid |
|---|---|

## Ymateb Dylunio ar ôl Arfarnu'r Safle

Drwy ymgorffori:

- mesurau cynaliadwyedd i leihau'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag adeiladau a lleihau'r galw am ynni (ffynonellau carbon isel a di-garbon), dŵr a defnyddiau a chreu llai o wastraff
- ymdrin â datblygu mewn ffyrdd sy'n creu cyfleoedd newydd i gynyddu bioamrywiaeth
- datblygu addasadwy a hyblyg a all ymateb i amodau/newidiadau cymdeithasol, technolegol, economaidd ac amgylcheddol (e.e. effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd a'r effeithiau i'r dyfodol) dros amser, i leihau'r angen i ddymchwel ac ailadeiladu.

## Atebion Dylunio

- **Gosodiad yn y dirwedd/trefwedd –** y ffordd y bydd datblygiad newydd yn gweithio gyda'r safle a'i gyd-destun yn y dirwedd. Mae hyn yn cynnwys nodweddion a phriodweddau allweddol megis patrwm, ffurf, graen, ymddangosiad, lliwiau ac elfennau er mwyn gwireddu'r amcan o gynnal cymeriad ac atgyfnerthu eglurdeb hefyd.
- **Bioamrywiaeth a'r amgylchedd lleol –** (yn cynnwys yr agwedd gynllunio/plannu) – y ffordd y bydd y datblygiad yn cynnal/gwella cyfleoedd i rywogaethau gyfanheddu'r ardal ac adeiladwaith yr adeilad a sut y bydd y datblygiad yn cynnal ac yn gwella cysylltiadau rhwng cynefinoedd. Dangos sut y bydd y datblygiad yn integreiddio â mannau agored[8], gan gynnwys rheoli ac ôl-ofal.
- **Effeithlonrwydd ynni/lleihau lefelau carbon –** y ffordd y bydd y datblygiad newydd yn ceisio lleihau'r galw am ynni a'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r datblygiad drwy roi'r hierarchaeth ynni ar waith, neu drwy wireddu safonau di-garbon.
- **Deunyddiau cynaliadwy –** defnyddio deunyddiau nad ydynt yn cael llawer o effaith amgylcheddol (ynni cynwysedig), sy'n defnyddio llai o ynni, o ffynonellau cynaliadwy (e.e. pren drwy'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd), o ffynonellau lleol (i leihau'r allyriadau trafnidiaeth), a defnyddio deunyddiau sydd wedi cael eu defnyddio, eu hadfer a'u hailgylchu.
- **Dŵr –** ymdrin mewn ffordd gynaliadwy â'r cyflenwad dŵr (cynaeafu dŵr glaw), â rheoli'r galw (effeithlonrwydd dŵr) ac â draenio (e.e. wyneb hydraidd ar gyfer palmentydd/traffig) a'r effaith ar y lefel trwythiad yn lleol.
- **Rheoli gwastraff –** y ffordd y bwriedir delio â gwastraff yn ystod y gwaith adeiladu ac ar ôl hynny (ailddefnyddio a gwaredu), gan gynnwys darparu cyfleusterau priodol ar gyfer didoli, storio ac ailgylchu gwastraff mewn adeiladau ac ar draws y safle.

[8] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy)*

- **Ymdopi â'r hinsawdd –** y ffordd y mae'r datblygiad i gael ei brawfesur o safbwynt yr hinsawdd i adlewyrchu'r hinsawdd y mae'n debygol o'i brofi yn ystod ei oes ddisgwyliedig drwy reoli a lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd (e.e. tymheredd eithafol).
- **Safonau adeiladu cynaliadwy –** defnyddio safonau sydd â sicrwydd ansawdd, a gydnabyddir yn genedlaethol, i ddangos bod atebion dylunio sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol (fel y nodwyd uchod) wedi cael eu cynnwys mewn datblygiadau newydd.

| **Materion Dylunio Perthnasol** | (gweler adran 5) |
|---|---|
| Datblygu sy'n ymateb i'r hinsawdd | Adeiladau Cynaliadwy |
| Tirwedd a Threfwedd | Dyluniad a Chynllun Tai |
| Amgylchfyd Cyhoeddus | Bioamrywiaeth |
| Adfywio Trefol | Adeiladau Cyhoeddus |
| Ardaloedd Cyflogaeth ac Ardaloedd Masnachol | |



16 Cysgod rhag yr haul yn SA1, Abertawe

*Gall elfennau dylunio goddefol megis cysgod rhag yr haul leihau'r angen am oeri artiffisial yn yr haf*

# Symud

**Amcan** – Hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o deithio

## Ymateb Dylunio ar ôl Arfarnu'r Cyd-destun

Sicrhau, i'r graddau mwyaf posibl:

- cysylltiadau diogel a chlir
- y potensial i feicio, cerdded a defnyddio cludiant cyhoeddus yn ddiogel, gan leihau'r ddibyniaeth ar y car
- cysylltiad â'r seilwaith trafnidiaeth presennol drwy integreiddio datblygiad gyda llwybrau troed presennol, llwybrau beicio a'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat
- integreiddio gwahanol fathau o drafnidiaeth gan fynd ati ar yr un pryd i leihau cymaint ag y bo modd ar unrhyw effaith andwyol ar y rhwydwaith
- symudiadau rhwydd i'r safle, o'r safle ac o fewn y safle i fathau cynaliadwy o drafnidiaeth drwy greu amgylchedd diogel a deniadol
- darparu cyfleusterau ar y safle i fathau cynaliadwy o drafnidiaeth.




17 Llwybrau beicio a cherdded

*Gall cysylltu datblygiad newydd gyda rhwydweithiau sydd yno eisoes wella'r cyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy*

## Atebion Dylunio

- **Cysylltiadau –** Y ffordd y mae'r cynllun arfaethedig yn cyfrannu at neu'n gwella'r fframwaith presennol o lwybrau a gofodau a dyfrffyrdd sy'n cysylltu â'i gilydd i sicrhau perthynas lwyddiannus rhwng gofod preifat a chyhoeddus.
- **Mathau –** Y ffordd y mae'r datblygiad yn darparu ar gyfer gwahanol fathau o drafnidiaeth.
- **Gwasanaethu –** Addasrwydd y trefniadau gwasanaethu sy'n bodoli i gludo'r nwyddau y mae eu hangen ar y datblygiad.
- **Parcio –** Y ffordd y mae'r datblygiad wedi ystyried y gofynion parcio ac a gaiff hyn ei reoli'n briodol.

## Materion Dylunio Perthnasol

(gweler adran 5)

| | |
|---|---|
| Trafnidiaeth | Dylunio Cynhwysol |
| Adfywio Trefol | Ardaloedd Gwledig |
| Dyluniad a Chynllun Tai | Ardaloedd Cyflogaeth ac Ardaloedd Masnachol |



18 Porthladd Caergybi

*Llwybrau a gwella'r drefwedd drwy gelf gyhoeddus*



# 5. Asesu Materion Dylunio

5.1 Mae'r adran hon yn delio â materion dylunio penodol lle gall goblygiadau dewisiadau dylunio fod yn arbennig o arwyddocaol o ran dylanwadu ar gyflawni amcanion dylunio da. Mae'r pwyslais ar ganfod atebion dylunio cynaliadwy, gan fod yn rhaid seilio pob agwedd o ddylunio ar y cysyniad o gynaliadwyedd. Fel gyda phob math o ddatblygu, dylai'r materion hyn gael eu hystyried yng nghyd-destun y cyngor mwy cyffredinol ynglŷn ag atebion dylunio. Mewn rhai achosion, bydd angen gwneud dewisiadau os yw'r atebion gorau o ran rhai amcanion dylunio yn gwrthdaro ag amcanion dylunio eraill. Dylid seilio'r dewisiadau hyn ar bolisi lleol a chenedlaethol.

5.2 Mae datganiad dylunio a mynediad yn gyfle i ddatblygwyr ddangos sut y maent wedi ystyried y materion dylunio sy'n cael eu trafod yn yr adran hon. Mae rhagor o arweiniad ar ddatganiadau dylunio a mynediad i'w weld mewn canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru[9].

**Materion trosfwaol**

5.3 Dylunio Cynhwysol

5.3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio feithrin diwylliant cynhwysol, a fydd yn golygu y bydd atebion dylunio'n darparu mynediad i'r amrediad ehangaf o bobl. Mae dylunio cynhwysol yn ffordd benodol o ymdrin ag amgylchedd heb rwystrau, ac ymhlyg yn hynny ymwrthodir â'r dull "anghenion arbennig" o ymdrin â namau, sy'n dibynnu ar addasiadau (egwyddorion a gynhwyswyd ym Mholisi Cynllunio Cymru ac y cyfeirir atynt yn adran 2 o'r TAN hwn). Yn achos datganiad dylunio a mynediad, bydd y materion a'r egwyddorion a nodir yma yn neilltuol o bwysig o ran egluro sut yr ymdriniwyd â materion yn ymwneud â mynediad i'r datblygiad, ond dylent hefyd sbarduno'r datganiad drwyddo draw.

5.3.2 Ym mhob maes datblygu, dylid mynd ati'n gynt i roi mwy o sylw i anghenion pob sector mewn cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, plant a phobl anabl. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol i ddylunio'r amgylchfyd cyhoeddus, i'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac i leoliad, dyluniad a chynllun cyfleusterau hamdden cyhoeddus, yn ogystal â dyluniad adeiladau unigol[10]. Mae'n gamsyniad cyffredinol mai mater i bobl sydd ag anawsterau symud yw dylunio cynhwysol yn bennaf. I'r gwrthwyneb, mae dylunio i bawb yn golygu y dylid ystyried anghenion pawb, gan gynnwys pobl sydd ag anawsterau symud, pobl â nam ar eu synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu.

5.3.3 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl ym maes darparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau; arfer swyddogaethau cyhoeddus; eiddo, gwaith a chymdeithasau. Yn fwy penodol, mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw nodweddion ffisegol eu heiddo yn golygu bod person anabl dan anfantais sylweddol.

[9] *Llywodraeth Cymru (2016) Llawlyfr Rheoli Datblygu (www.gov.wales/topics/planning/?skip=1&lang=cy)*
*Comisiwn Dylunio Cymru (2014) Design and Access Statements in Wales (http://dcfw.org/design-and-access-statements-in-wales/)*
*Llywodraeth Cymru (2016) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio – Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy)*

[10] *ODPM (2003) Planning and Access for Disabled People (www.gov.uk/government/publications/planning-and-access-for-disabled-people-a-good-practice-guide)*

5.3.4 Rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus hynny y bernir eu bod yn cael effaith sylweddol ar fywydau pobl anabl (mae hyn yn cynnwys awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru) gyhoeddi amcanion yn nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'n well y ddyletswydd gyffredinol i ddileu camwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal[11 12 13].

5.3.5 Mae arferion da i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio yn golygu:

- cynyddu ymwybyddiaeth pawb o gynwysoldeb;
- ymgynghori â phobl anabl a grwpiau sy'n eu cynrychioli;
- nodi'r rhwystrau mynediad ffisegol ac anffisegol;
- gwneud addasiadau i ddelio â'r rhwystrau a nodwyd;
- tynnu sylw pobl anabl at addasiadau;
- cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithlonrwydd.



19 Canolfan Gelf Rhuthun

*Dylnuiad cynhwysol a sensitif i ardal gyhoeddus*

5.3.6 Mae'r Rheoliadau Adeiladu, Safonau Prydeinig a chanllawiau yn pennu'r safonau mynediad gofynnol i adeiladau o bob dosbarth. Drwy fabwysiadu agwedd gynhwysol o'r cychwyn, lleiheir yr angen i addasu adeiladau newydd yn nes ymlaen er mwyn iddynt gydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae cynlluniau fel "cartrefi am oes", sy'n anelu at ddiwallu anghenion preswylwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn tanlinellu pwysigrwydd rhagofal a hyblygrwydd, yn ogystal â sensitifrwydd wrth ddylunio, fel dull o roi cyfle i bawb ddefnyddio'r amgylchedd a/neu fanteisio ar wasanaethau/cyfleusterau yn gyfartal ac yn annibynnol.
Mae'r math hwn o gynllun yn canolbwyntio ar effeithiau positif dylunio cynhwysol, megis mynediad i'r boblogaeth gyfan, hyblygrwydd a'r gallu i addasu datblygiad wrth ei ddefnyddio ac mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion cynaliadwy.

5.3.7 Anogir y rhai sy'n ceisio caniatâd i godi adeiladau masnachol cyhoeddus a newydd i gynnwys cyfleusterau toiled 'Mannau Newid' hygyrch yn eu cynlluniau, yn ychwanegol at doiledau hygyrch safonol. Mae toiledau Mannau Newid yn gyfleusterau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer oedolion sydd ag anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu gan doiledau cyffredin i bobl anabl. Maent yn cynnwys byrddau newid meddal y gellir addasu eu huchder ac sy'n ddigon mawr ar gyfer oedolyn, cyfarpar ar gyfer helpu i godi, gofod o amgylch y toiled, a chawod[14].

[11] *Deddf Cydraddoldeb 2010 (www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents)*

[12] *Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made)*

[13] *Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011 (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1063/contents/made)*

[14] *Changing Places Consortium (2013) Changing Places: the practical guide (www.changing-places.org/)*

## 5.4 Datblygu sy'n Ymateb i'r Hinsawdd ac Adeiladau Cynaliadwy

5.4.1 Dylai awdurdodau cynllunio, datblygwyr a phartneriaid eraill sy'n darparu datblygiadau newydd fynd ati'n adeiladol a chyda dychymyg i ddarparu datblygiadau sy'n ymateb i'r hinsawdd ac adeiladau cynaliadwy, yn enwedig lle mae hyn wedi'i gynnwys mewn polisi. Caiff y rhain eu darparu drwy ystyried amryw o atebion dylunio sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac sy'n briodol i'r datblygiad. Rhaid i'r goblygiadau sy'n deillio ohonynt gael eu hystyried mor gynnar â phosibl yn y broses ddylunio. Mae Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadw[15] yn rhoi canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ynghylch ffyrdd o ymgorffori cynlluniau ar gyfer adeiladau cynaliadwy mewn cynigion adeiladu.

5.4.2 Er mwyn sicrhau datblygiadau sy'n ymateb i'r hinsawdd, rhaid deall sut y gall datblygiad fynd i'r afael ag achosion y newid yn yr hinsawdd (lliniaru) a gwrthsefyll ei effeithiau (addasu).

5.4.3 Er mwyn **lliniaru** achosion y newid yn yr hinsawdd wrth ddylunio datblygiad, dylid mynd ati'n amlwg i leihau'r allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Yr arfer da o ran lliniaru achosion y newid yn yr hinsawdd yw defnyddio'r hierarchaeth ynni (gweler Ffigur 3) sy'n manylu ar gyfres o gamau y dylid eu cymryd i leihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost effeithiol.

5.4.4 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld pob adeilad newydd yn y dyfodol yn cyflawni safon ddi-garbon a safon bron yn niwtral o ran ynni ar gyfer allyriadau rheoledig (gwresogi, oeri, goleuo ac awyru). Defnyddir hierarchiaeth fras i flaenoriaethu'r atebion dylunio, gan ddechrau gyda'r angen i leihau'r galw. Wrth ddatblygu hierarchiaeth ynni, mae modd paratoi dull gweithredu 'lleihau carbon' ar gyfer datblygiadau, lle bynnag y bo'n briodol, a'i gynnwys neu ei grynhoi mewn datganiad dylunio a mynediad i ddangos bod ymgais wedi'i gwneud drwy ddylunio i geisio lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r datblygiad – gan gynnwys cyfleoedd i gyrraedd y safon ddi-garbon.



20 Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth

*Lleihau'r galw am ynni drwy ffenestri effeithiol a'r defnydd o ddeunyddiau a phaneli haul*

[15] *Llywodraeth Cymru (2014) Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy)*

Ffigur 3 Yr Hierarchiaeth Ynni[16]




5.4.5 Wrth ddefnyddio'r hierarchiaeth, ceir amrywiaeth o **atebion dylunio carbon isel a di-garbon** y gellir eu defnyddio. Dylid defnyddio'r rhain mewn ffordd ddilyniannol yn ôl eu gallu i leihau carbon a sicrhau costeffeithiolrwydd wrth leihau allyriadau carbon.

5.4.6 O'r cychwyn, gall cynnal arfarniad llawn o'r cyd-destun (gweler paragraff 4.3 a'r Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle[17]) helpu i nodi unrhyw gyfyngiadau a chyfleoedd i ymgorffori'r atebion dylunio carbon isel a di-garbon hyn mewn cynnig. Dylai hyn gynnwys syniad o alw tebygol yr adeilad arfaethedig am wres, cyfleusterau oeri ac ynni (a'i allyriadau carbon yn sgil hynny) gan y bydd hyn yn llywio'r modd y rhoddir yr hierarchaeth ynni/carbon ar waith. Yn dibynnu ar eu maint a'u graddfa efallai y byddai rhai safleoedd yn cael budd o strategaeth ynni/carbon ar gyfer y datblygiad yn ei gyfanrwydd sy'n ystyried galwadau ynni/gwres y safle cyfan er mwyn dod o hyd i'r ateb gorau i leihau lefelau carbon (gan gynnwys cyfleoedd o adeiladau cyfagos).

5.4.7 Caiff lefel y gostyngiad carbon a ddisgwylir ei phennu gan yr isafswm a ddisgwylir gan y Rheoliadau Adeiladu (Rhan L). Bydd cyfraniad a chyfuniad pob un o'r atebion dylunio carbon isel a di-garbon hyn yn ddibynnol ar y dull dylunio a ddefnyddir[18].

*[16] Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth Cymru (2016) (http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/efficiency/energy-efficiency-strategy-for-wales/?skip=1&lang=cy)*

*[17] Llywodraeth Cymru (2016) Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/?skip=1&lang=cy)*

*[18] Rheoliadau Adeiladu Rhan L (Arbed tanwydd ac ynni) (www.gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/part-l-energy/?skip=1&lang=cy)*

5.4.8 Mae cymysgedd, dwysedd a defnydd tir datblygiad yn pennu ei anghenion ynni, gwresogi ac oeri. Safleoedd mwy neu safleoedd yn ymyl datblygiadau presennol sy'n debygol o ddarparu'r cyfle mwyaf i ddatblygu systemau gwres a phŵer cyfunedig a systemau gwresogi ardal (yn cynnwys y galw am oeri). Gall cyfuniad o safleoedd llai gynnig cyfleoedd ar gyfer atebion ynni wedi'u datganoli.

5.4.9 Ceir y cyfleoedd mwyaf ar gyfer cyflenwad ynni lleol a charbon isel neu ddi-garbon megis systemau gwres a phŵer cyfunedig a systemau gwresogi ardal pan fydd dwysedd uchel a chymysgedd defnyddiau yn cael eu cynnig, a bod cydbwysedd rhwng eu hanghenion ynni dros wahanol gyfnodau o amser. Mae'r cydbwysedd rhwng defnydd diwydiannol a defnydd preswyl, neu ddefnydd sefydliad mawr megis ysbyty neu ganolfan hamdden, yn enghraifft o hyn.



21 | Paneli Haul, Coach House, Caerdydd

*Cynnwys paneli haul yn y to*

5.4.10 Er mwyn **addasu'n** effeithiol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, dylid ystyried sut y gall dylunio leihau a rheoli'r effeithiau a fydd yn deillio o'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r arferion da i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio yn cynnwys:

- ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd ac i'r dyfodol;
- ymwybyddiaeth o sut y gall mesurau addasu i'r hinsawdd luosi manteision a chynnal amcanion eraill sy'n rhan o ddylunio da (megis hyrwyddo bioamrywiaeth drwy ymgorffori toeau gwyrdd);
- ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd drwy'r adeiledd, yr amlen ffisegol a'r deunyddiau a ddewisir i'w galluogi i wrthsefyll tymheredd eithafol;
- sicrhau nad yw atebion dylunio yn cyfyngu ar gyfleoedd i addasu ar hyn o bryd nac yn y dyfodol nac yn gwneud datblygiad yn fwy agored i niwed oherwydd y newid yn yr hinsawdd;
- cydnabod y berthynas ag ymatebion mwy strategol i'r newid yn yr hinsawdd, megis perygl llifogydd a draeniad[19].

5.4.11 Gallai'r meini prawf ar gyfer cynllun datblygiadau a'r nodweddion dylunio gynnwys:

- osgoi microhinsoddau gwael (copaon bryniau neu bantiau barugog), a manteisio ar lethrau sy'n wynebu'r de;
- mesurau goddefol sy'n dal y ddysgl yn wastad rhwng manteision colli cyn lleied o wres â phosibl yn y gaeaf a'r perygl o enillion solar gormodol yn yr haf (gan osgoi'r angen i osod systemau oeri artiffisial);
- lloches rhag yr elfennau er mwyn colli cyn lleied o wres â phosibl yn y gaeaf a chysgod digonol yn yr haf gan ffurf y tir, y dirwedd ac adeiladau eraill;
- y cyfeiriad, fel bod yr adeilad yn wynebu o fewn 45 gradd o leiaf i'r de, er mwyn cael y gorau o'r enillion solar (yn dibynnu ar y math o ddefnydd);
- darparu cysgod naturiol ar gyfer gofod awyr agored;
- mesurau draenio cynaliadwy drwy nodweddion y cynllun a'r dylunio fel bod modd rheoli canlyniadau llifogydd yn dderbyniol;
- gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i gynnal a/neu wella'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd a chreu lle ar gyfer addasiadau i'r dyfodol.



22 | Stordy Adnams

*Defnydd o do gwyrdd ar gyfer adeilad masnachol*

5.4.12 Mae sawl agwedd ar ddylunio, megis **ffurf yr adeilad** a'r **ffenestri** yn dylanwadu ar gynaliadwyedd amgylcheddol adeiladau. Gall y ffactorau canlynol fod yn berthnasol:

- y cynllun mewnol, gan gynnwys ystyried lleoliad yr ystafelloedd e.e. ystafelloedd y mae angen mwy o wres arnynt (megis ystafelloedd byw) i wynebu'r de;
- defnyddio nodweddion dylunio megis atria, heulfannau a chynteddau i alluogi aer i gylchdroi'n naturiol a chadw gwres;

[19] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?skip=1&lang=cy)*

- cynllun y ffenestri, y drysau a ffenestri'r to e.e. darparu ffenestri mwy mewn mannau sy'n wynebu'r de a rhai llai tua'r gogledd mewn datblygiadau preswyl a darparu golau naturiol at ddefnydd cyflogaeth ond, ar yr un pryd, ystyried y posibilrwydd o orboethi ym misoedd yr haf;
- cynllunio dyfnder mewn modd sy'n gydnaws â golau dydd naturiol ac awyriad;
- ffurf gryno i leihau'r arwynebedd allanol, ac atal mwy o wynt a thymheredd uwch rhag ymdreiddio;
- mae angen i gyfleusterau da ar gyfer gwahanu gwastraff ar y safle gael eu hintegreiddio'n sensitif – sef gwahanu'r defnyddiau gwastraff i'w hailddefnyddio a'u hailgylchu ar y safle oddi wrth y defnyddiau gwastraff a fydd yn cael eu cludo o'r safle ynghyd â chyfleusterau ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu'r gwastraff a fydd yn aros ar y safle, a hynny am oes y datblygiad;
- cynnwys darpariaeth ar gyfer technolegau carbon isel neu ddi-garbon neu eu gwneud yn ddichonadwy;
- defnyddio toeau gwyrdd i insiwleiddio rhag enillion gwres, i leihau'r dŵr wyneb ffo ac i hwyluso bioamrywiaeth;
- dewis deunyddiau sy'n defnyddio llai o ynni [pren a gynhyrchir yn gynaliadwy (ag ardystiad FSC), deunyddiau lleol neu eildro, e.e. brics, llechi];
- prosesau adeiladu cynaliadwy sy'n osgoi neu'n lleihau gwastraff ac effeithiau amgylcheddol, iechyd neu gymdeithasol eraill yn ystod yr adeiladu;
- casglu dŵr glaw a'i ddefnyddio ar y safle, a hefyd ailddefnyddio dŵr glaw mewn modd addas;
- dewis deunyddiau y mae gwyntoedd mwy cyflym a thymheredd eithafol yn effeithio llai ar eu perfformiad;
- dyluniadau sy'n oeri yn yr haf drwy gysgod rhag yr haul, màs thermol ac awyru.

## Cyd-destun

### 5.5 Tirwedd a Threfwedd

5.5.1 Mae'r patrymau anheddu arbennig sy'n nodweddu llawer o Gymru wedi esblygu yn rhannol mewn ymateb i dirwedd a thopograffi amrywiol y wlad. Mae'r berthynas rhwng datblygiad a'i dirwedd drefol neu wledig neu'r forwedd yn dyngedfennol i'w lwyddiant. Oherwydd hyn, mae deall ansawdd y dirwedd, gan gynnwys ei chymeriad hanesyddol, yn sylfaenol i'r broses ddylunio.




23 Dinbych-y-pysgod

*Perthynas lwyddiannus rhwng yr arfordir a'r drefwedd*

5.5.2 Yn gyffredinol, bydd dylunio da'n dibynnu bron bob amser ar weithio o fewn cyfyngiadau naturiol a chymeriad hanesyddol y dirwedd, a dyna'r man cychwyn y dylai dyluniad unrhyw ddatblygiad esblygu ohono. Dylid ceisio cael hyd i atebion dylunio cynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau'r dirwedd ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol ar y dirwedd. Mae'n neilltuol o bwysig fod cynigion i newid neu greu tirwedd newydd yn cael eu hystyried fel rhan sylfaenol o'r broses asesu ac nid fel rhywbeth ategol iddi, ac y deellir effaith tymor hir y datblygiad ar y dirwedd. Mae llwyddiant unrhyw gynllun yn dibynnu ar y modd y rhoddir y newidiadau a geir mewn cynlluniau plannu ar waith ac ar y modd y rheolir y newidiadau hynny yn y tymor hir.

5.5.3 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am wneud asesiad digonol o nodweddion cymharol eu tirwedd leol. Gall y cynllun datblygu fanylu ar ddisgwyliadau'r awdurdod lleol o ran dylunio'r dirwedd neu gall hefyd fod â rôl o ran paratoi canllawiau dylunio a chanllawiau cynllunio atodol ar gyfer datblygiadau penodol neu ardaloedd penodol.



24 | Canolbarth Cymru

*Gellir defnyddio'r dirwedd ehangach i bennu sut mae'r dyluniad yn ymateb i'w gyd-destun lleol*

5.5.4 Ar gyfer datblygiadau mwy, dylid cynnal asesiad strategol o'r dirwedd ar ddechrau'r broses ddylunio i helpu i ddiffinio gallu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol i ymdopi â'r datblygiad. Dylai hynny hefyd roi cyd-destun cyffredinol ar gyfer penderfyniadau ynghylch graddfa, ffurf a chynllun, gan bennu pa rai o nodweddion y dirwedd y dylid eu diogelu neu eu gwella. Dylai hyn gynnwys yr awydd i ddarparu cysylltiadau rhwng cynefinoedd yn ogystal â rôl hanfodol y dirwedd o safbwynt rheoli adnoddau fel dŵr a phridd yn gynaliadwy Gellir defnyddio'r dirwedd ehangach i bennu sut mae'r dyluniad yn ymateb i'w gyd-destun lleol ar lefel dalgylchoedd. Mewn ardaloedd sydd wedi cael eu cynnwys ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru, mae methodoleg yn bodoli i asesu arwyddocâd effeithiau datblygiadau arfaethedig (ASIDHOL, Assessment of the Significance of the Importance of Development on Historic Landscape). Dylai atebion dylunio ddangos yn glir sut mae'r asesiad strategol o'r dirwedd, gan gynnwys unrhyw rôl a allai fod ganddo o ran hwyluso addasiadau er mwyn ymdopi â'r newid yn yr hinsawdd, law yn llaw â'r arfarniad safle, wedi dylanwadu ar y cynigion datblygu a phlannu.

5.5.5 Mae'n bwysig nad yw nodweddion y dirwedd drefol (y drefwedd) yn cael eu diystyru wrth ddylunio datblygiadau. Mae cysylltiad clòs rhwng y drefwedd a thopograffi, nodweddion naturiol megis afonydd, patrymau llystyfiant, parciau, coridorau gwyrdd a gwaith plannu mewn strydoedd a mannau cyhoeddus. Maent yn aml yn rhan annatod o gymeriad hanesyddol y dref. Mae angen i nodweddion tirwedd yr anheddiad, gan gynnwys ei gyfraniad at olygfeydd a'i gysylltiadau â chefn gwlad agored, ei swyddogaeth o ran rheoli dŵr, amddiffyn pridd, oeri naturiol, cysylltiadau rhwng cynefinoedd a'i gymeriad hanesyddol, gael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddylunio.

## 5.6 Yr Amgylchedd Hanesyddol

5.6.1 Mae'r cyngor cyffredinol ynglŷn ag amcanion dylunio da, manteision arfarnu'r cyd-destun, a chanfod atebion dylunio, lawn mor ddilys wrth ddylunio yn yr amgylchedd hanesyddol[20]. Mae dylunio'n dda wrth ddatblygu yn golygu gwneud defnydd priodol hefyd o'r dulliau rheoli deddfwriaethol sydd ar gael er mwyn gwella ansawdd. Mewn ardaloedd o gymeriad arbennig megis ardaloedd cadwraeth neu ardaloedd â thirwedd werthfawr, hwyrach y bydd gofyn i awdurdodau cynllunio lleol gadw golwg lymach ar y ffordd y darperir ar gyfer datblygiadau newydd a'r modd y mae newid yn cael ei reoli. Er mai'r priod fan cychwyn yw cyflawni amcanion dylunio da, hwyrach y bydd cyngor mwy manwl yn ofynnol, er mwyn bod yn sicr bod rhinweddau penodol yn cael eu diogelu neu eu gwella a dylai'r rhain fod yn rhan o'r trafodaethau cyn cyflwyno cais. Mewn ardaloedd cadwraeth, dylid ystyried a fyddai'n ddymunol diogelu neu wella cymeriad ac ymddangosiad. Lle mae gofyn cyflwyno datganiad dylunio a mynediad law yn llaw â chais am ganiatâd adeilad rhestredig, rhaid i'r datganiad ymdrin â'r agweddau statudol penodol ar y gwaith o leiaf; mae'r agweddau hyn yn wahanol i'r rhai a bennir ar gyfer ceisiadau cynllunio.



25 Adeiladau Rhestredig yn Sgwâr Bethel, Aberhonddu

*Galluogi newidiadau yn yr amgylchedd hanesyddol a chynyddu potensial adeiladau rhestredig*

5.6.2 Mewn ardaloedd sy'n cael eu cydnabod am eu tirwedd, eu trefwedd, eu gwerth pensaernïol, archaeolegol a/neu hanesyddol, megis Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth, mae'r amcan o gynnal cymeriad yn arbennig o bwysig, a dylid adlewyrchu hynny wrth arfarnu'r cyd-destun[21]. Dylid ymgyrraedd at agweddau "cymeriad" cyffredinol dylunio da, ond hwyrach y bydd angen gwybodaeth fanylach am faterion allweddol megis:

- **gosodiad a threm** adeiladau, tirwedd, parciau a gerddi, archaeoleg a nenlinellau allweddol o fewn yr ardal, tuag ati ac ohoni;
- **undod neu anffurfioldeb pensaernïol** grwpiau o adeiladau, mewn aneddiadau ac yn y dirwedd;
- **elfennau a thechnegau adeiladu arbennig lleol,** megis goleddf y toeau, mesuriadau ffenestri, parapetau, neu fanylion palmantu;
- **deunyddiau wynebu nodweddiadol lleol**, megis llechi naturiol, conglfeini brics neu gerrig naturiol, mewn adeiladau ac yn yr amgylchfyd cyhoeddus;
- **manylion terfynau** gan gynnwys dulliau amgáu o fewn y dirwedd, mannau agored a gerddi;
- **dodrefn stryd**, gan gynnwys arwyddion, placiau enwau strydoedd, goleuadau stryd;
- **mewn ardaloedd manwerthu**, dyluniad arbennig a mesuriadau wynebau siopau, ac arwyddion neu lythrennu nodweddiadol.

[20] *Y Swyddfa Gymreig (1996) Cylchlythyr 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth (www.gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular6196/?skip=1&lang=cy)*

[21] *Cadw (2004),Addasu Adeiladau Fferm Hanesyddol yng Nghymru: Canllaw i arfer da (http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/lookingafteryourproperty/bestpractice/?skip=1&lang=cy)*

5.6.3 Mae angen sgiliau arbenigol i wneud asesiad manwl gywir o ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Wrth ddylunio newidiadau neu estyniadau i adeiladau rhestredig, mae arbenigedd proffesiynol yn hanfodol er mwyn asesu'r elfennau sy'n gyfrifol am y diddordeb arbennig sy'n perthyn i adeilad, a chyrraedd cydbwysedd rhwng newidiadau sensitif a chadw integriti.

5.6.4 Wrth newid adeiladau rhestredig, a hefyd yn yr amgylchedd hanesyddol ehangach, dylid ymdrechu i gael defnyddiau lleol, neu ddefnyddiau o ffynonellau eraill, cyfwerth o ran ymddangosiad, lliw a nodweddion hindreulio. Weithiau, gall fod yn briodol hepgor yr atebion dylunio confensiynol, o blaid dull mwy dychmygus a chyfoes. Byddai hynny'n galw am hyblygrwydd wrth weithredu polisïau, a pharodrwydd ar ran yr ymgeiswyr i ddefnyddio gofodau mewn adeiladau hanesyddol mewn ffordd llai confensiynol ac i ddefnyddio manylebau o ansawdd uchel. Mae Cadw a Swyddogion Cadwraeth awdurdodau lleol yn rhoi arweiniad manwl ar faterion yn ymwneud ag adeiladau rhestredig.

5.6.5 Mae effaith traffig yn fater allweddol sy'n peri pryder mewn ardaloedd hanesyddol. Wrth ddylunio cynlluniau rheoli traffig a seilwaith trafnidiaeth dylid ystyried:

- symlrwydd a pharch at ddeunyddiau a manylion lleol;
- defnyddio ffurf yr adeiladau presennol at ddiben arafu traffig – megis y mannau cyfyng presennol;
- strydoedd culion neu adeiladau mewn lleoedd strategol;
- defnyddio nodweddion naturiol, er enghraifft perthi, fel modd i arafu traffig;
- cyfleoedd i resymoli arwyddion traffig a lleihau annibendod.

5.6.6 Mae cadwraeth yn aml yn golygu bod newid a dylunio llwyddiannus yn yr amgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar raglen reoli sy'n cysylltu'r polisïau cadwraeth â'r strategaethau ehangach ar gyfer dylunio ac adfywio trefol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol fanteisio'n llawn ar ganllawiau cynllunio atodol ar ffurf canllawiau dylunio a briffiau datblygu, er mwyn cysylltu'r polisi â'r cyfleoedd ymarferol i wella.



26 Addasiad St Clare

*Addasiad sensitif i hen adeilad*

5.6.7 Mae gwneud yr amgylchedd hanesyddol yn fwy hygyrch i bob carfan o gymdeithas yn fater i bawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio. Efallai y bydd angen atebion dylunio creadigol i sicrhau lefelau mynediad digonol nid yn unig at adeiladau ond hefyd at holl barthau cyhoeddus ardaloedd hanesyddol. Mae arweiniad mwy penodol ar wneud adeiladau'n fwy hygyrch ar gael gan Cadw a chan Swyddogion Cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol.

5.6.8 Gall gwaith a wneir ar adeiladau hanesyddol sicrhau safonau ynni uwch a gwell safonau amgylcheddol eraill heb amharu ar nodweddion pensaernïol neu ddiddordeb hanesyddol arbennig yr adeilad. Er y bydd gofyn bod yn hyblyg gyda'r cais efallai, ni ddylid diystyru cyfleoedd o'r fath.

## 5.7 Adfywio Trefol

5.7.1 Bydd gwireddu potensial ardaloedd trefol presennol yn helpu i leihau'r angen i deithio, yn helpu i adfer ac adfywio canolfannau trefol ac yn ysgafnhau'r pwysau i ddatblygu mewn ardaloedd gwledig. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn agwedd bwysig ar gymeriad lleol arbennig, sy'n ased werthfawr wrth adfywio. Mae perthynas gymhleth rhwng dwysedd datblygu, darparu gwasanaethau ac ansawdd yr amgylchedd, ac mae dylunio da yn hanfodol i lwyddiant y berthynas hon. Mewn ardaloedd lle mae angen hyrwyddo twf a newid, megis yng nghanol trefi ac mewn ardaloedd preswyl a chyflogaeth hŷn, dylai awdurdodau cynllunio lleol egluro eu gweledigaeth ar gyfer datblygu'r ardal dros gyfnod o amser. Gall fframwaith dylunio trefol neu gynllun meistr helpu i ddatblygu'r weledigaeth hon ar ffurf tri dimensiwn a gall hyn fod yn sail i ganllawiau cynllunio atodol neu ganllaw dylunio arall i lywio'r datblygu.



27 | Parc Drift, Y Rhyl, Sir Ddinbych

*Adfywio trefol trwy bartneriaeth yn creu diddordeb newydd yn yr ardal*

5.7.2 Mae'n bwysig fod y rhai sy'n ymwneud â'r broses ddylunio yn gwybod beth yw rhinweddau presennol yr ardal drefol, a'u bod yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cryfhau neu'n ategu'r rhinweddau hynny. Enghreifftiau o hyn fyddai ymgorffori elfennau o'r dirwedd yn yr amgylchedd trefol; gwneud y gorau o nodweddion naturiol fel glannau afonydd neu dopograffi amrywiol, ac addasu nodweddion adeiledig fel glannau dociau neu hen reilffyrdd yn llwybrau i gerddwyr a beicwyr. Mae llawer i'w ennill o wneud hyn, o ran cryfhau'r cymeriad lleol drwy gysylltu gwahanol elfennau o ardaloedd trefol, creu coridorau gwyrdd er budd cadwraeth natur a hamdden, a lleihau'r ddibyniaeth ar y car.

5.7.3 Drwy integreiddio defnyddiau cymysg cydnaws yn ofalus, dengys tystiolaeth y gellir helpu ardaloedd trefol i dyfu'n fwy cystadleuol, hyfyw a chynaliadwy. O safbwynt dylunio, mae defnyddiau cymysg yn ychwanegu at yr amrywiaeth yn y drefwedd, ac mae'r gweithgarwch y mae hynny'n ei ennyn yn ychwanegu at ei bywiogrwydd. Mae dylunio da a thechnegau adeiladu da yn hanfodol er mwyn datrys problemau ymarferol megis sŵn a phreifatrwydd, a hefyd er mwyn sicrhau cydberthynas ffisegol dda rhwng y cymysgedd o ddefnyddiau, a chyfleoedd i fod yn weledol ddiddorol a gwreiddiol.



28 | Y Gweithfeydd, Glynebwy

*Adfywio trefol sylweddol drwy gydweithredu â rhanddeiliaid*

5.7.4 Nid yw adeiladu dwys yn gyfystyr ag adeiladu tyrau uchel ond, i ddylunio'n llwyddiannus ar raddfa ddwys, rhaid wrth ddylunio da, arloesol. Drwy ddylunio medrus, gellir creu ymdeimlad o ddwysedd is. Mae diffinio gofod cyhoeddus a gofod preifat yn eglur, a sicrhau bod adeiladau'n ateb eu diben, yn arbennig o bwysig pan fo'r dwysedd yn uchel.

## 5.8 Ardaloedd Gwledig

5.8.1 Dylid cydnabod rhinweddau arbennig tirwedd ac arfordir Cymru. Dylid cyfoethogi'r rhinweddau trwy warchod cymeriad cefn gwlad a sicrhau bod datblygiadau newydd o ansawdd uchel.




29 | Beddgelert, Parc Cenedlaethol Eryri

*Arhosfan bysiau a ddyluniwyd gan ystyried y cyd-destun*

5.8.2 Bydd y materion dylunio sy'n berthnasol i aneddiadau gwledig, cyrion trefi, cymoedd cul, serth, llwyfandiroedd ac ardaloedd amaethyddol eang yn amrywio'n sylweddol. Dylai'r polisïau a'r canllawiau lywio'r gweithgarwch i osgoi effaith negyddol ar dirweddau gwledig arbennig a'r tir amaethyddol gorau, ac i warchod yr amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd. Mae rheoli newid drwy gyfrwng strategaeth tirweddau sy'n seiliedig ar asesu'r dirwedd yn drylwyr yn un ffordd o ddiogelu'r ymdeimlad o le yng nghefn gwlad. Dylai'r strategaeth honno ddadansoddi'r materion allweddol a chynnig canllawiau ar gyfer themâu dylunio, paletau o ddeunyddiau a briffiau ar gyfer safleoedd penodol.

5.8.3 Bydd cysoni'r gwaith o gynnal hunaniaeth leol gyda'r ymdrechion i gefnogi ffyniant economaidd mewn ardaloedd gwledig yn aml yn galw am addasu adeiladau. Wrth addasu adeiladau, rhaid wrth ddylunio medrus a sensitif, dealltwriaeth o ddulliau adeiladu traddodiadol a digon o ddychymyg i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael yn y modd mwyaf cyflawn a chyffrous. Gan fod llawer o'r adeiladau yng nghefn gwlad Cymru wedi eu codi ar safleoedd gweledol amlwg, mae'r perygl o ddifrodi'r arbenigrwydd lleol trwy eu datblygu mewn ffordd anaddas yn fwy hyd yn oed nag ydyw mewn ardaloedd dwys eu datblygiad. Ar y llaw arall, gall rhannau o gefn gwlad gynnig cyfleoedd unigryw ar gyfer dylunio arloesol, heb aberthu eu gwerth esthetig a chan eu gwneud yn fwy hygyrch, a dylid ymchwilio'n llawn i'r cyfleoedd hyn.

5.8.4 O safbwynt addasu adeiladau amaethyddol, i gadw'u cymeriad dylid newid cyn lleied ag y bo modd ar eu hymddangosiad allanol. Cadernid a symlrwydd yn y dylunio ac ym mherthynas y ffurf adeiledig â'r dirwedd sy'n rhoi ei chymeriad unigryw i lawer ardal wledig yng Nghymru. Dylai polisïau'r cynllun datblygu a'r canllawiau adlewyrchu natur fregus y rhinweddau hyn, a chyfraniad pwysig arbenigrwydd lleol i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer ardaloedd gwledig.



30 | Ystradfellte

*Addasu hen adeiladau fferm yn waith trin dŵr*

5.8.5 Fel arfer, dylanwadir ar raddfa, ffurf a lleoliad adeiladau amaethyddol newydd neu adeiladau arallgyfeirio ar ffermydd gan anghenion gweithredol y fenter. Lle bo hynny'n bosibl, dylai adeiladau newydd gael eu hintegreiddio â'r fferm. O ran adeiladau eraill, dylid eu dylunio a'u lleoli'n ofalus i sicrhau eu bod yn ymdoddi'n dda i'r dirwedd. Gall deunyddio deunyddiau sy'n briodol i'r lleoliad, rhoi sylw i liwiau'r deunyddiau a'r manylion hwyluso'r broses o'u cymhathu â'r tirlun. Mae angen i'r drefn sy'n dibynnu ar lyfr patrymau safonol esblygu i adlewyrchu elfennau cynhenid ac i fod yn berthnasol i'r cyd-destun lleol.


## 5.9 Trafnidiaeth

5.9.1 Bydd safle, cynllun a dyluniad manwl y datblygiad yn aml yn fater o bwys hanfodol i lwyddiant ymdrechion i gynnig dewisiadau eraill go iawn yn lle teithio mewn car ac i wella ansawdd yr amgylchedd yn ei grynswth. Nodwyd bod ansawdd yr amgylchedd yn un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar pa un a fydd pobl yn dewis cerdded neu feicio mewn ardaloedd trefol ai peidio. Gall dewis lleoliad da ar gyfer safle, ac adeiladu a dylunio strydoedd yn dda, fod yn bwysig o ran lleihau ac arafu traffig a chwtogi ar nifer y teithiau byr mewn ceir, yn ogystal ag annog dewis ehangach o ddulliau cynaliadwy o deithio. Mae dyluniad a chynllun unrhyw ddatblygiad newydd yn bwysig o ran hyrwyddo teithio llesol, o ran creu llwybrau teithio llesol newydd a gwell, a hefyd o ran creu'r cyfleusterau sy'n gysylltiedig â hwy, yn unol â darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[22].

[22] *Deddf Teithio Llesol (Cymru (2013) (www.gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/?skip=1&lang=cy)
Llywodraeth Cymru (2014) Design Guidance: Active Travel (Wales) Act 2013 (www.gov.wales/docs/det/publications/141209-active-travel-design-guidance-en.pdf)*

5.9.2 Dylai gwaith cynllunio symudiadau bob amser fod wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r cyd-destun lleol, ac ar ddadansoddiad o anghenion a photensial yr ardal. Mae TAN 18: Trafnidiaeth[23] yn nodi sut y gall y broses Asesu Trafnidiaeth helpu i ddadansoddi'r galwadau teithio ac effaith teithio. Dylai'r broses hon gyfrannu at y gwaith o ddylunio seilwaith trafnidiaeth ar gyfer y datblygiad a dylai arwain at gynhyrchu Strategaeth Gweithredu Trafnidiaeth i reoli symudiadau i'r safle, o'r safle ac oddi mewn iddo (yng nghyswllt datblygiadau mawr). Wrth ddarparu datganiad dylunio a mynediad, gellir trawsgyfeirio asesiadau o'r fath.

5.9.3 Ar ddatblygiadau mawr, dylai cyfleoedd strategol megis y potensial i gael cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â manteision mesurau rheoli traffig lleol, gael eu hystyried a dylid darparu ar eu cyfer. Dylai'r seilwaith trafnidiaeth gael ei ddylunio yn unol â'r safonau uchaf, a dylid archwilio'r potensial i sefydlu dyluniad o "fri", sy'n atgyfnerthu'r hunaniaeth leol. Mae addasrwydd i'r diben a chysur a diogelwch y defnyddwyr yn hollbwysig wrth ddylunio seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Yn arbennig, dylid gwireddu'r potensial i godi proffil teithio ar fysiau a threnau drwy ddylunio arloesol sy'n diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.



31 Astudiaeth o goridor rheilffordd Aman a Gwendraeth

*Asesu potensial trafnidiaeth rheilffordd*

5.9.4 Dylid bod yn arbennig o ofalus i sicrhau nad yw dyluniad y seilwaith yn gwahanu nac yn darnio cymunedau. Mae mynediad hydraidd i bawb yn hanfodol. Dylid rhoi sylw i faterion fel graddiant, goleuadau a diogelwch wrth ddylunio llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn benodol, er mwyn sicrhau bod y llwybrau'n gydlynol, yn hawdd eu dilyn, yn uniongyrchol, yn ddeniadol, yn ddiogel ac yn ddirwystr. Yn ogystal, dylid cydnabod anghenion gwahanol beicwyr a cherddwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau symudedd a/neu nam ar eu synhwyrau, a'r posibilrwydd o wrthdaro rhyngddynt, a darparu ar gyfer hynny. Mae diogelwch a'r ymdeimlad o ddiogelwch yn hollbwysig wrth geisio annog pobl i gerdded a beicio. Dylai dyluniadau ystyried yr angen i amddiffyn buddiannau pob defnyddiwr sy'n agored i niwed.



32 Porthmadog

*Defnyddio'r seilwaith presennol i greu llwybrau newydd ar gyfer beicwyr*

5.9.5 Dylid cynnwys carfanau perthnasol yn gynnar yn y drafodaeth am faterion trafnidiaeth a symud, er mwyn deall anghenion y gweithredwyr a'r defnyddwyr a'u hadlewyrchu yn yr atebion dylunio. Gall y Manual for Streets a'r safonau priffyrdd lleol roi arweiniad i ddatblygwyr ynglŷn â'r safonau dylunio, a'r safonau o ran cynllun ac adeiladu y byddai awdurdodau lleol yn disgwyl i ddatblygiadau newydd eu dilyn. Fodd bynnag, dylid osgoi cymhwyso safonau rhagnodol yn yr un ffordd yn union ym mhob achos yn ddiwahân. Dylid sicrhau gwell cydbwysedd rhwng pum prif swyddogaeth strydoedd, yn enwedig y swyddogaeth symud a lle, fel y nodwyd yn y Manual for Streets. Mae perthynas waith agos rhwng y tîm dylunio, y cynllunwyr a pheirianwyr priffyrdd yn hanfodol i gyflawni hyn. Dylai safonau lleol gael eu hadolygu yng

[23] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan18/?skip=1&lang=cy)*

ngoleuni'r Manual for Streets a gellir defnyddio'i egwyddorion allweddol yn ehangach na dim ond yng nghyswllt strydoedd preswyl.

5.9.6 Wrth gymryd yr anghenion seilwaith trafnidiaeth i ystyriaeth yn ystod y broses ddylunio, dylid rhoi'r pwyslais ar symud pobl yn ddiogel ac yn hygyrch ar hyd llwybrau deniadol sydd â chydberthynas dda â'r amgylcheddau trefol a gwledig. Dylai cynllun y seilwaith helpu i hyrwyddo cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Er mwyn sicrhau hyn, dylid ystyried pob math o fodd ar ddechrau'r broses ddylunio, fel y gellir diogelu llwybrau uniongyrchol a deniadol ar gyfer moddau symud gwahanol, megis cerdded a beicio, neu, lle bo hynny'n briodol, eu gwella.

5.9.7 Dylid rhoi sylw arbennig i anghenion pobl anabl, plant a phobl hŷn ac, er mwyn sicrhau dyluniad cynhwysol, dylid eu hystyried o'r dechrau'n deg.

## Math o Ddatblygiad

### 5.10 Adeiladau Cyhoeddus

5.10.1 Mae gan y sector cyhoeddus gyfrifoldeb a chyfle i osod safonau uchel wrth ddylunio ei adeiladau ei hun a gwireddu targedau carbon isel neu ddi-garbon lle mae hynny'n bosibl. Wrth ddylunio ysgolion, ysbytai ac adeiladau a seilwaith eraill i'w defnyddio gan y gymuned leol, y nod yw sicrhau eu bod yn addas i'r diben, cael gwerth am arian yn ystod oes yr adeilad, a chael effaith bositif ar fywydau'r rheini sy'n ei ddefnyddio ac ar yr ardal o'i gwmpas.



33 | Llyfrgell Caerdydd

*Arwain drwy esiampl - ymgorffori dylunio cynaliadwy mewn adeiladau cyhoeddus*

5.10.2 Drwy eu lleoliad a'u dyluniad, gall adeiladau cyhoeddus fod yn ganolbwynt cryf i'r gymuned ac atgyfnerthu hunaniaeth leol. Rhaid eu hintegreiddio o fewn y gymuned y maent yn ei gwasanaethu. Bydd y rhan fwyaf o adeiladau cyhoeddus ar eu gorau mewn mannau canolog sy'n hawdd eu gweld. Pan fydd cyfle i bwysleisio statws dinesig trwy ddatblygu mannau cyhoeddus cyfagos, dylid gwneud hynny. Mae sicrhau mynediad i bawb ac eglurdeb yn amcanion hynod bwysig wrth ddylunio adeiladau y gwahoddir y cyhoedd iddynt.



34 Canolfan y Mileniwm, Caerdydd

*Dylunio arloesol yn defnyddio deunyddiau o Gymru i ychwanegu cymeriad a chreu ardal gyhoeddus nodedig*

5.10.3 Gall adeiladau cyhoeddus blaengar eu dyluniad fod yn erfyn pwerus i adfywio tref ac ni ddylid dibrisio'r manteision cymdeithasol ac economaidd a all ddod yn sgil dylunio adeiladau cyhoeddus o bwys. Yn yr un modd, dylid bod yr un mor uchelgeisiol wrth ddylunio adeiladau lleol sy'n cael effaith fwy uniongyrchol ar fywydau pobl.

5.10.4 I gael y gwerth gorau am arian dros oes gyfan y prosiect, dylid defnyddio timau prosiect integredig a chanddynt yr holl sgiliau dylunio ac adeiladu y mae eu hangen i sicrhau'r safonau uchaf ac i osgoi gwastraff.

## 5.11 Dyluniad a Chynllun Tai

5.11.1 Mae amgylcheddau preswyl mwy cynaliadwy yn dibynnu ar gysylltu datblygiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus a defnyddiau a gwasanaethau eraill (e.e. gwresogi ardal), darparu mynediad at wasanaethau lleol, a defnyddio tir yn y modd mwyaf effeithlon[24]. I gael ardal breswyl lwyddiannus, dylai dyluniad y tai greu ymdeimlad o le ac o gymuned, gan ddefnyddio'r rhwydwaith symud i gryfhau'r rhinweddau hynny ac i ymgorffori nodweddion cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae cyngor ychwanegol ar gael ar roi'r un ystyriaeth i anghenion cerddwyr a phlant yn benodol, ag i symudiadau cerbydau wrth ddylunio strydoedd preswyl[25]. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru wedi cymeradwyo Adeiladu am Oes 12 Cymru[26] fel safon ar gyfer y diwydiant. Mae'n erfyn defnyddiol a all helpu i sicrhau dylunio o ansawdd gwell mewn datblygiadau preswyl, ac mae hefyd yn ategu gofynion polisi cynllunio cenedlaethol.

5.11.2 Dylai cynigion datblygu, mewn perthynas â dylunio tai, amcanu at:

- greu lleoedd gydag anghenion pobl mewn golwg, sy'n meddu ar nodweddion arbennig ac sy'n parchu'r cymeriad lleol;
- hyrwyddo cynllun a nodweddion dylunio sy'n gwneud y gymuned yn fwy diogel a hygyrch;

[24] *Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (2005) A Model Design Guide for Wales - Residential Development (http://dcfw.org/a-model-design-guide-for-wales-residential-development/)*

[25] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan18/?skip=1&lang=cy)*
*Adran Drafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Manual for Streets (www.gov.uk/government/publications/designing-residential-streets-manual)*
*The Chartered Institute of Highways and Transportation (2010) Manual for Streets 2 (www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2)*

[26] *Adeiladu am Oes 12 Cymru (http://cdn.dcfw.org.uk/Bfl12-Wales-Welsh-Low-Res.pdf)*

- canolbwyntio ar ansawdd y lleoedd a'r amgylcheddau byw o safbwynt cerddwyr, yn hytrach na symudiadau cerbydau a pharcio;
- osgoi safonau cynllunio anhyblyg ac annog cynllun sy'n rheoli cyflymder cerbydau drwy geometreg y ffordd a'r adeiladau;
- hyrwyddo nodweddion cynaliadwyedd amgylcheddol, megis effeithlonrwydd ynni, mewn tai newydd a gwneud ymrwymiadau penodol clir i ostwng lefelau carbon a/neu i safonau adeiladu cynaliadwy;
- sicrhau'r dull mwyaf effeithlon o ddefnyddio tir, gan gynnwys y dwyseddau addas;
- ystyried a chydbwyso gwrthdaro posibl rhwng y meini prawf hyn.

5.11.3 Dylai'r modd y dylunnir cynllun tai a'u ffurf adeiledig adlewyrchu'r cyd-destun lleol, gan gynnwys y topograffi a ffabrig yr adeiladau. Ni ddylai'r ymateb hwn i'r cyd-destun fod yn gyfyngedig i'r gorffeniadau pensaernïol. Dylid cydnabod y cyfraniad pwysig y gall dylunio cyfoes, sy'n addas i'w gyd-destun, ei wneud i'r cymeriad lleol. Er mwyn helpu i integreiddio datblygiadau hen a newydd, ac atgyfnerthu'r hierarchaeth rhwng gofodau, dylid ystyried cadw'r prif nodweddion presennol, y llwybrau sefydledig a'r coed a'r perthi aeddfed o fewn ardaloedd tai yn ogystal â phlannu o'r newydd pan fo'n briodol i'r ardal. Dylai pob cynnig preswyl geisio lleihau'r galw am ynni, a dylai cynlluniau mwy ymchwilio i ddichonoldeb cynlluniau gwresogi ardal, yn enwedig pan fydd defnyddiau cymysg yn cael eu cynnig ar y safle.



35 | Crucywel

*Clystyru adeiladau a chymysgu dwyseddau er mwyn creu amrywiaeth ac ymdeimlad o hunaniaeth leol*

5.11.4 Mae lleoli a diffinio gofod cyhoeddus a phreifat a dylunio'r terfynau yn arbennig o bwysig mewn perthynas â thai. Dylai datblygiad newydd gymryd i ystyriaeth berthynas bresennol yr adeiladau â'r dirwedd a'r dulliau lleol o ddiffinio terfynau, megis perthi, waliau neu ffensys. Yn gyffredinol, dylid gwneud pob ymdrech i gyfeirio'r anheddau fel eu bod yn wynebu'r ffyrdd a'r gofodau presennol gan sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a'r angen i hyrwyddo nodweddion cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r berthynas rhwng perimedr y datblygiad a'i gefndir yn bwysig, ac nid yw datblygiadau sy'n cefnu ar y ffyrdd presennol yn cymhathu'n dda â'u cyd-destun. Dylid gwneud eithriad lle mae'r cynllun nodweddiadol yn fwy organig, megis mewn llawer o bentrefi gwledig ac aneddiadau llai ledled Cymru lle ceir talcenni tai yn wynebu'r ffordd.



36 | Felindre Farchog, Trefdraeth, Sir Benfro

*Tai newydd a ddyluniwyd i atgyfnerthu'r ymdeimlad sydd eisoes yn bodoli yno o le a chymuned*

5.11.5 Mae cadw'n rhy haearnaidd at safonau priffyrdd heb ystyried y Manual for Streets; dibynnu gormod ar fathau safonol o dai; a diffyg perthynas â'r cyd-destun lleol i gyd wedi cael eu nodi fel rhwystrau rhag dylunio tai yn dda, ac yn ffactorau sy'n milwrio yn erbyn yr ymdeimlad o le mewn datblygiadau tai. Trwy gynnwys yr elfennau canlynol yn y dyluniad gellir helpu i greu ymdeimlad o le:

- **amrywio'r dwysedd** i greu gwahaniaethau yn y ffurf adeiledig y gall preswylwyr ac ymwelwyr uniaethu â hwy ac i'w wneud yn lle diddorol;
- **lleoli adeiladau allweddol ar gorneli neu gyffyrdd** er mwyn sefydlu hierarchaeth ddatblygu eglur;

- **manteisio ar y nodweddion naturiol presennol** neu fanteisio ar olygfeydd a chysgod naturiol; ac
- **amrywio'r gweddluniau**, y defnyddiau a'r ffurf adeiledig, gan ddatblygu grwpiau llai o adeiladau y gall pobl uniaethu â hwy.

5.11.6 Dylid ystyried y stryd yn ofod cyhoeddus lle gall pobl gyfarfod. Yn gyffredinol, dylai rhwydweithiau strydoedd ar ddatblygiadau tai gysylltu â'i gilydd neu fod yn 'hydraidd' er mwyn hwyluso cerdded a beicio diogel. Dylent hefyd gysylltu â rhwydweithiau strydoedd cyfagos a darparu ar gyfer cysylltiadau yn y dyfodol â datblygiadau pellach. Nid yw hyn yn golygu gwahardd ffyrdd pengaead, ond dylid eu defnyddio gyda gofal, rhag amharu ar hydreiddedd datblygiadau tai. Ni ddylid darparu llwybrau sy'n debygol o ddenu mwy o droseddu, megis llwybrau wedi'u hynysu y tu ôl i adeiladau neu lwybrau na ellir eu gweld yn hawdd.

5.11.7 Dylid cyfeirio at y Manual for Streets i gael gwybodaeth am yr opsiynau dylunio mewn perthynas â pharcio. Wrth ddylunio'r ddarpariaeth ar gyfer parcio, dylai'r pwyslais fod ar ei hintegreiddio o fewn y cefndir cyffredinol, gan gydnabod y gall perchnogaeth ar gar amrywio yn ôl incwm, oedran, cyfansoddiad teuluoedd, y math o dai a'u lleoliad. Mae pennu ym mhle a sut i barcio ceir yn un o'r prif ffactorau yn ansawdd y datblygiad. Ni ddylid caniatáu i gerbydau ormesu'r gofod, na pheri anhwylustod i gerddwyr a beicwyr. Ar yr un pryd, dylid cydnabod bod angen i bobl anabl barcio yn ymyl eu cartrefi. Rhaid taro cydbwysedd rhwng disgwyliadau perchnogion ceir, sef, yn benodol, yr awydd i barcio mor agos at y tai ag y bo modd, yr angen i'r ceir fod yn ddiogel neu o fewn golwg, a'r angen i gynnal cymeriad y datblygiad.

## 5.12 Ardaloedd Cyflogaeth ac Ardaloedd Masnachol

5.12.1 Mae dylunio ardaloedd cyflogaeth yn fater pwysig, gan y gall dyluniad o ansawdd uchel ychwanegu at werth eiddo masnachol, cynnal delwedd busnesau modern ac annog buddsoddi pellach. Mae rhoi ystyriaeth gynnar i'r angen i sefydlu safonau amgylcheddol uchel, dyheadau carbon isel a lleihau'r angen i oeri adeiladau'n artiffisial yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu opsiynau carbon isel ac ynni adnewyddadwy a rennir.

5.12.2 Gall adeiladau cyflogaeth mawr newydd ddatgan eu pwrpas yn aml mewn ffordd herfeiddiol. Mae'n bwysig fod adeiladau busnes yn cyflawni eu diben, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at lwyddiant economaidd eu defnyddwyr. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio deunyddiau o ansawdd uchel, cynllun mewnol ac allanol sy'n hyblyg a thirweddu priodol megis ffurf y ddaear neu blannu, gellir helpu i integreiddio adeiladau busnes newydd i'w hamgylchedd, lleihau'r angen i oeri adeiladau'n artiffisial a'i gwneud yn haws i ddeiliaid diweddarach eu haddasu. Yn fynych, trwy adael nodweddion gwasanaeth a chyfleustodau yn y golwg a defnyddio dychymyg yn eu manylwaith, gellir ychwanegu elfennau o ddiddordeb at ffasadau a fyddai fel arall yn ddiflas. Mae'r angen i ystyried prosesau cynnal a chadw'r adeilad a'r dirwedd unwaith y bydd y datblygiad wedi cael ei gwblhau hefyd yn hanfodol i sicrhau bod y datblygiad yn parhau'n integredig.

5.12.3 Pan fo adeiladau cyflogaeth mewn grŵp gyda'i gilydd, mae'n hanfodol fod y tirweddu'n ddigonol i allu amsugno swmp yr adeiladau, y cylchrediad o'u hamgylch a'r mannau parcio. Dylid gwireddu cyfleoedd i leihau'r galw am ynni drwy fabwysiadu technoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel megis cynlluniau gwresogi ardal, gan gynnwys gwres a pŵer cyfunedig yn rhedeg

ar danwydd carbon isel. Byddai defnyddiau cyflogaeth cymysg yn gwneud cynlluniau o'r fath yn fwy dichonadwy a hyfyw a dylid gochel rhag creu ystadau sydd wedi'u hynysu. Dylid ymdrechu i gyflwyno delwedd bositif a blaengar drwy sicrhau bod yr adeiladau allweddol yn y datblygiad yn wynebu'r ffyrdd ac yn helpu i wella cysylltiadau. Trwy ddarparu lleoedd parcio ar iardiau o fewn y datblygiad gellir helpu i leihau effaith weledol lleoedd parcio. Dylid cynnwys llwybrau ar wahân, sy'n ddiogel a deniadol ar gyfer cerddwyr a beicwyr a chyfleusterau o safon uchel ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd trefniadau cynnal a chadw nad ydynt yn galw am lawer o waith yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd deiliadaeth gymysg.



37 | Technium OpTIC

*Dylunio arloesol mewn adeiladau masnachol*

5.12.4 Yn achos adeiladau cyflogaeth llai, yn enwedig rhai a leolir yng nghyffiniau defnyddiau eraill, bydd angen perthynas agosach rhyngddynt a'u cyd-destun, o ran graddfa ac ymddangosiad. Nid yw hyn yn golygu y dylid cuddio'u pwrpas, ond yn hytrach ei fynegi mewn modd sy'n adlewyrchu neu'n ategu'r cefndir. O dan rai amgylchiadau, yn enwedig mewn ardaloedd adfywio neu wledig, bydd yn briodol addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes at ddibenion cyflogaeth. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ardaloedd hyn gall fod lle i adeiladau newydd ac iddynt ymddangosiad priodol.



38 Swyddfeydd Penderyn

*Defnydd o ddeunydd lleol i ychwanegu cymeriad i ddatblygiad masnachol*

## Materion Manwl

### 5.13 Bioamrywiaeth

5.13.1 Mae dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ystyried diogelu a chyfoethogi bioamrywiaeth wrth benderfynu ar bolisïau cynllunio a rheoli datblygu ac i brofi eu cynlluniau datblygu o safbwynt effaith arwyddocaol ar "safleoedd Ewropeaidd" drwy Arfarniad o dan y Rheoliadau Cynefinoed[27]. Gall dylunio da gyfrannu at warchod neu gyfoethogi buddiannau bywyd gwyllt ardal neu safle.

5.13.2 Dylai dylunwyr fod yn ymwybodol y gall carfanau perthnasol ystyried bod priodweddau sydd o fudd i fywyd gwyllt yn un o nodweddion ardal, yn ychwanegol at werth y nodwedd honno i fywyd gwyllt (megis llain o dir agored heb ei drin o fewn ystad o dai, neu berth sy'n gyforiog o fywyd gwyllt o bob math). Gall nodi a gwneud yn fawr o gyfleoedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth fel rhan o'r broses ddylunio ategu camau i gynnwys nodweddion cynaliadwyedd amgylcheddol eraill drwy'r dylunio.

[27] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan5/?skip=1&lang=cy)*

5.13.3 Gall creu lle i fioamrywiaeth hybu gallu datblygiadau i addasu i newidiadau yn yr amgylchedd lleol a allai ddeillio o'r newid yn yr hinsawdd yn ystod oes datblygiad adeiledig. Dylai'r gwaith dylunio a chynnal a chadw tymor hir cysylltiedig fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddigonol o'r prosesau naturiol sy'n bresennol, hynny er mwyn diogelu nodweddion o werth bioamrywiaeth yn y tymor hir. Mewn sefyllfaoedd sydd â goblygiadau i gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir, rhaid ceisio cyngor arbenigol. Ymysg y dulliau y gellir eu mabwysiadu o fewn dyluniad mae:

- cadw a gwella nodwedd bresennol a chreu nodwedd newydd;
- mesurau i ddiogelu a/neu annog rhywogaethau a chynefinoedd.



39 Systemau draeniad cynaliadwy, Pont-y-clun

*Defnydd o system ddraeniad gynaliadwy i reoli ardal mewn datblygiad tai*

## 5.14 Yr Amgylchfyd Cyhoeddus

5.14.1 Gall amgylchfyd cyhoeddus o ansawdd uchel wneud cyfraniad unigryw at greu amgylchedd cyffrous gan ddarparu canolbwynt i weithgarwch cymunedol. Mae ffurf a dyluniad gofodau a thramwyfeydd yr amgylchfyd cyhoeddus yn hanfodol i'w lwyddiant. Bydd arfer dychymyg wrth ddylunio arwynebeddau, goleuadau, deunyddiau, dodrefn stryd, planhigion a lefelau yn gwella'r amgylchedd yn gyffredinol ac yn diffinio'i "ymdeimlad o le". Mae canllawiau pellach at ddylunio strydoedd mewn ffordd integredig ar gael[28].

5.14.2 Dylid rhoi sylw penodol i adlewyrchu anghenion holl garfannau'r gymuned wrth ddylunio gofodau a strydoedd cyhoeddus, gan ddilyn egwyddorion dylunio cynhwysol. Mae'n bosibl y bydd angen amrywiaeth o gyfleusterau i wasanaethu grwpiau fel gofalwyr neu bobl hŷn, sydd efallai'n gwerthfawrogi cyfleusterau lleol; plant, y mae'n arbennig o bwysig eu gwahanu oddi wrth y traffig; pobl sydd ag anawsterau symudedd; a'r rhai sydd â nam ar eu golwg neu sydd wedi colli eu golwg. Y nod yw annog hierarchaeth o ofodau cyhoeddus cysylltiedig, fel y ceir rhwydwaith o ddarpariaeth sy'n adlewyrchu'r anghenion lleol.

[28] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan18/?skip=1&lang=cy)*
*Adran Adran Drafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Manual for Streets (www.gov.uk/government/publications/designing-residential-streets-manual)*
*The Chartered Institute of Highways and Transportation (2010) Manual for Streets 2 (www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2)*



40 | 'Cynffon y Barcud', Aberafan, Port Talbot

*Ychwanegu diddordeb gweledol at ardal drwy ddefnyddio dodrefn stryd a chelf gyhoeddus*

5.14.3 Er mwyn cystadlu'n economaidd, mae angen i gymunedau wybod beth yw eu "personoliaeth" unigryw a manteisio ar y bersonoliaeth honno fel y gallant gynnig rhesymau gwahanol dros ymweld â'r lle. Gall amgylchfyd cyhoeddus o ansawdd uchel, sydd wedi'i ddylunio'n dda, helpu i greu "ymdeimlad o le" mewn cymunedau, gan ychwanegu at eu hatyniad y tu hwnt i'r ardal ei hunan. Wrth ddylunio a gwella'r amgylchfyd cyhoeddus, yr ystyriaethau allweddol yw:

- perthynas y gofod â'r adeiladau o'i amgylch;
- addasrwydd y gofod at ei ddiben;
- y gwasanaethau cymunedol sy'n ofynnol a'u perthynas â'r math o ddatblygiad;
- pa mor ddiogel ydyw, ac a deimlir ei fod yn ddiogel.

5.14.4 Wrth wella'r amgylchfyd cyhoeddus, dylid achub ar y cyfle i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth a helpu i leihau llygredd trwy ddylunio, plannu a chynnal planhigion yn ofalus. Drwy blannu, yn enwedig rhywogaethau o goed mawr, gellir gwella'r microhinsawdd a lleihau llwch a'r ymdeimlad o sŵn drwy ddarparu cysgod a sgrinio. Gall defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy[29] yn yr amgylchfyd cyhoeddus helpu i leihau effeithiau lleol llifogydd.

5.14.5 Yn y cynlluniau i wella'r amgylchfyd cyhoeddus, dylai'r datblygiad weithredu'n bositif i ddarparu goleuadau cyhoeddus digonol, a hefyd i leihau llygredd goleuni diangen. Dylid ystyried

[29] *Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan15/?skip=1&lang=cy)*

goleuadau fel rhan annatod a chreadigol o ddyluniad yr amgylchfyd cyhoeddus. Dylid ystyried dulliau o:

- gyfeirio golau yn fwy manwl gywir;
- lleihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnyddio ynni ar gyfer goleuadau stryd;
- lleihau llacharedd drwy ddefnyddio adlewyrchyddion proffil isel, gan sicrhau lefelau goleuo priodol, yn hytrach na gormodol.

5.14.6 Dylai'r rhai sy'n ymwneud â dylunio a rheoli'r amgylchfyd cyhoeddus fod yn ymwybodol o botensial eu cynigion i greu sŵn, ac effaith hynny ar fwynderau cyfagos. Dylid ymchwilio i'r cyfleoedd i leihau sŵn amgylchol, megis sŵn traffig, a dylid ymgorffori hynny yng nghynllun a dyluniad manwl yr amgylchfyd cyhoeddus, a defnyddio deunyddiau arwynebu tawel a sgriniau naturiol neu artiffisial i atal sŵn.



41 Sedd yng Nghonwy


*Sedd yn darparu diddordeb gweledol yn ogysgal â man i eistedd*

5.14.7 Diffyg gwaith cynnal a chadw hirdymor priodol yw un o'r prif ffactorau sydd i gyfrif am y dirywiad yn y safonau amgylcheddol ac esthetig yn yr amgylchfyd cyhoeddus. Mae gwaith cynnal a chadw da hefyd yn hollbwysig i sicrhau amgylchedd sy'n hygyrch i bawb. Rhaid i gynigion sy'n canolbwyntio ar wella'r amgylchfyd cyhoeddus gynnwys strategaethau rheoli a chyllido ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Dylai'r dyluniad gydnabod bod angen ffrwyno'r rhwymedigaeth i wneud gwaith cynnal a chadw ond heb beryglu ansawdd y dyluniad. Trwy ddewis defnyddiau syml ond cadarn, darparu digon  o finiau sbwriel, ac osgoi dylunio 'trapiau sbwriel' a nodweddion dylunio a all sbarduno troseddu, gellir lleihau'r costau cynnal, diogelu ymddangosiad yr ardal ac ychwanegu at fwynhad y cyhoedd.

## 5.15 Celfyddyd Gyhoeddus

5.15.1 Mae celfyddyd gyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn creu neu'n amlygu unigoliaeth ac arbenigrwydd, ac yn codi proffil ein dinasoedd, ein trefi, ein pentrefi a'n tirwedd weldig a threfol. Drwy integreiddio crefft neu waith artist proffesiynol, gellir ychwanegu gwerth a defnyddio celfyddyd gyhoeddus mewn mannau allweddol i gyfoethogi'r amgylchfyd cyhoeddus a'i wneud yn fwy eglur. Mae cyfleoedd dirifedi i integreiddio celfyddyd gyhoeddus o fewn y drefwedd, a'r gelfyddyd honno'n amrywio o'r dramatig i'r cynnil, o gerfluniau traddodiadol, gweithiau er coffa ac ymyriadau achlysurol llai i weithiau integredig sy'n defnyddio cyfryngau cyfoes a rhyngweithiol fel sain neu oleuadau. Gellir hefyd ystyried defnyddio dylunio arloesol ar ddodrefn stryd ac elfennau ymarferol eraill ac, yn gynyddol, drwy ddylunio'r llawrlun, rheiliau, goleuadau ac arwyddion gyda dychymyg, deuir â gwedd unigryw a hunaniaeth i fwy a mwy o wrthrychau bob dydd. Drwy ddewis lleoliad yn ofalus a defnyddio deunyddiau cyffyrddol, gall celfyddyd gyhoeddus fod yn hygyrch i bawb, a dylai fod felly, heb danseilio hygyrchedd cyffredinol.

5.15.2 Mae celfyddyd gyhoeddus yn ychwanegu dimensiwn cymdeithasol a diwylliannol at ymweliad â chanol tref, a gall ddod â budd i'r economi ddiwylliannol a hwb i dwristiaeth ddiwylliannol, yn ogystal â darparu amgylchedd diddorol sy'n annog siopwyr i loetran, gyda manteision amlwg i fasnachwyr lleol. Er mwyn llwyddo rhaid wrth ymrwymiad i ansawdd da o ran cysyniad, dylunio, crefftwaith a deunyddiau ym mhob gwaith celf a gomisiynir.



42 | Celfyddyd Gyhoeddus yn Wrecsam

*Creu diddordeb yng nghanol tref*

5.15.3 Mae swyddogaeth unigryw celfyddyd gyhoeddus fel offeryn adfywio wedi ei hen gydnabod yng Nghymru ac yn rhyngwladol ac mae'r Strategaethau Celfyddyd Gyhoeddus a gynhyrchwyd ac a fabwysiadwyd gan nifer o awdurdodau cynllunio lleol yn fuddiol yn y cyd-destun hwn. Gall y sector preifat noddi prosiectau celfyddyd cyhoeddus, yn enwedig pan gynigir codi datblygiadau mawr, ac mae digon o gynsail i hynny. Gall gweithredu arloesol, pwrpasol a chyfoes hefyd ddenu cyfraniadau o du ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y maes, yn ogystal â symbylu cyhoeddusrwydd a gwerth marchnata sylweddol.

5.15.4 Dylid ystyried celfyddyd gyhoeddus yn gynnar yn y broses ddylunio a dylai fod yn rhan annatod o ddyluniad cyffredinol adeilad, man cyhoeddus neu le. Dylai'r artistiaid a ddewisir a natur y gwaith a lunnir yn ddiweddarach fod yn destun cydweithio llawn o'r cychwyn rhwng yr artist, y gymuned leol a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r broses ddylunio. Mae ennyn ymdeimlad o berchnogaeth leol a chyfrifoldeb cyhoeddus am y gwaith celfyddydol yn hanfodol i lwyddiant hirdymor prosiectau celfyddyd gyhoeddus. Dylid ymgynghori â gweithwyr celfyddyd gyhoeddus proffesiynol mor gynnar â phosibl i nodi'r cyfleoedd ac i ddarparu cyngor proffesiynol i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr. Yng Nghymru, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn hyrwyddo arfer da drwy gyfres o gynlluniau a phartneriaethau, ac yn rhoi cyngor drwy eu gwefan[30].

[30] *Cyngor Celfyddydau Cymru (http://www.celf.cymru/?diablo.lang=cym)*

## 5.16 Arwyddion a Hysbysebion

5.16.1 Un maes allweddol lle gellir mynegi personoliaeth unigryw yw dyluniad arwyddion a hysbysebion. Mae'n hanfodol fod arwyddion yn addas i'w cyd- destun. Gyda dylunio medrus, mae modd addasu arwyddion safonol cwmnïau i barchu cyd-destun sensitif, heb aberthu delwedd gorfforaethol y cwmni. Dylid annog yr arferiad hwn. Er bod galw am agwedd sensitif neu draddodiadol at ddylunio arwyddion mewn ardaloedd hanesyddol, gall arwyddion sy'n llawn dychymyg, wedi eu goleuo'n briodol, ychwanegu at fywiogrwydd a diddordeb gweledol canol tref. Gall defnyddio goleuadau neon fod yn fater sensitif ond maent yn debygol o fod yn fwyaf priodol mewn canolfannau siopa a hamdden prysur. Yn y canolfannau trefol mwyaf, gall arwyddion wedi'u goleuo'n llachar ysgogi economi fywiog a llwyddiannus fin nos. Fodd bynnag, dylid ceisio osgoi codi gormod o arwyddion rhag creu annibendod a dryswch yn y strydlun. Bydd codi arwyddion dwyieithog yn gyfle i arloesi wrth ddylunio.



43 Cynllun Celfyddyd Gyhoeddus Fitzhammon Embankment

*Defnydd o gelfyddyd gyhoeddus i greu diddordeb gyda'r nos*




44 Arwyddion ar gyfer cerddwyr a beicwyr

*Gall arwyddion clir priodol wella profiad y defnyddiwr o'r ardal*

5.16.2 Wrth gynllunio arwyddion, mae'n bwysig ystyried anghenion pobl sydd â nam ar eu golwg neu nam gwybyddol a dylid osgoi codi hysbysebion ar lefel y llawr megis byrddau 'A' lle y byddent yn llesteirio symud.

## 5.17 Diogelwch

5.17.1 Yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, roi sylw priodol i atal troseddu ac anhrefn wrth gyflawni eu swyddogaethau. Dylid ystyried ffyrdd ymarferol o ddylunio datblygiadau er mwyn lleihau'r cyfleoedd i droseddu, creu anhrefn ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

5.17.2 Cynghorir awdurdodau lleol i gynnal trafodaethau cyn ymgeisio gyda Swyddogion Dylunio i Atal Troseddu, ac i ymgynghori â hwy ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau lle mae potensial i ddileu neu i leihau troseddu drwy fabwysiadu mesurau priodol yn ystod y cam dylunio. Mae hynny'n arbennig o bwysig ar gyfer datblygiadau mawr megis ystadau tai newydd, ystadau diwydiannol, canolfannau siopa, cyfadeiladau hamdden, ysgolion a meysydd parcio. Mae'n bwysig eu bod yn ymgynghori â Swyddogion Dylunio i Atal Troseddu cyn gynted ag y bo modd yn y broses gynllunio – erbyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno, mae'n bosibl na fydd fawr o gyfle i weithredu ar unrhyw gyngor a gafwyd.



45 Dinbych-y-pysgod

*Perthynas bositif rhwng ardaloedd preifat a chyhoeddus, goruchwyliaeth naturiol wedi'i ymgorffori yn nyluniad fflatiau newydd*

5.17.3 Mae Mannau mwy Diogel[31] a Diogelu Trwy Ddylunio[32] yn darparu safonau cydnabyddedig, y profwyd eu bod yn lleihau troseddu (yn enwedig byrgleriaeth mewn eiddo preswyl) ac effaith troseddu ar gymdogaethau. Byddai'n ddymunol sefydlu safonau mesuradwy ar gyfer pob datblygiad tai, adeiladau cyhoeddus a phob adeilad a gyllidir gan gyrff cyhoeddus. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod angen ystyried anghenion diogelwch ochr yn ochr ag amcanion eraill dylunio da ac, wrth ddylunio datblygiadau, mae angen cael cydbwysedd rhwng y dyhead am breifatrwydd, mynediad i bawb a sicrhau diogelwch, elfennau sy'n aml yn gwrthdaro â'i gilydd.

5.17.4 Mae'n ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru[33] gynnal asesiadau strategol rheolaidd o faterion troseddu ac anhrefn a chamddefnyddio sylweddau yn eu hardaloedd, a chynhyrchu Cynlluniau Diogelwch Cymunedol blynyddol treigl, ar gylch tair blynedd. Dylai dyluniad a diogelwch pob datblygiad adlewyrchu amcanion strategol y cynllun diogelwch lleol. Dylai'r mesurau dylunio fod yn gymesur â'r risgiau a nodwyd ac arfer da, gan adlewyrchu'r dangosyddion priodol yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a pholisïau'r cynllun datblygu.



46 Canol Tref Wrecsam

*Seddau a ddyluniwyd gan artist mewn man agored cymunedol. Mae'r sylw i fanylion yn y dyluniad a'r ymdeimlad o ddiogelwch sy'n deillio o oruchwyliaeth naturiol yn helpu i greu mannau agored cymunedol llwyddiannus*

[31] *DCLG (2004) Safer Places: The Planning System and Crime Prevention (www.gov.uk/government/publications/safer-places-the-planning-system-and-crime-prevention)*

[32] *Secured by Design (www.securedbydesign.com/)*

[33] *Y Swyddfa Gartref (2013) Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (www.gov.uk/government/policies/reducing-and-preventing-crime–2/supporting-pages/community-safety-partnerships)*

5.17.5 Gall trefniadau cymdeithasol yn ogystal â threfniadau ffisegol effeithio ar droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylai pawb sy'n ymwneud â'r broses ddylunio fod yn ymwybodol o bwysigrwydd ffactorau cymdeithasol, o ran penderfynu sut y bydd aelodau'r gymuned yn rhyngweithio â'i gilydd ac â'r amgylchedd. Er enghraifft, wrth ddewis safle, dylid ceisio sicrhau darpariaeth ddigonol o siopau, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau eraill i gynnal datblygiad newydd, a'i hintegreiddio gyda'r systemau trafnidiaeth presennol. Yn yr un modd, dylai cymysgedd o wahanol fathau o dai olygu bod rhywun yn bresennol yn ystod y dydd, gan wella'r cyfleoedd am oruchwyliaeth naturiol, rhyngweithio cymunedol a rheolaeth amgylcheddol.

5.17.6 Dylai pawb sydd â rhan yn y broses o ddylunio datblygiadau ystyried y cysyniad o 'atal troseddu drwy ddylunio' yn llawn. Mae dyluniad y nodweddion ffisegol, megis trefniant y seilwaith a'r adeiladau, hefyd yn effeithio ar droseddu.

5.17.7 Dylid rhoi sylw i'r canlynol ar ddechrau'r broses ddylunio:

- cynllun sy'n cynnwys llwybrau eglur ac uniongyrchol, sydd hefyd yn ddeniadol ac felly'n debygol o gael eu defnyddio'n aml;
- cyfeirio adeiladau, yn enwedig tai, i alluogi goruchwylio naturiol. Bydd angen atebion dylunio gofalus a fydd yn darparu golygfa ddirwystr o eiddo cyfagos heb amharu ar breifatrwydd. Mae goruchwylio naturiol yn arbennig o bwysig mewn mannau lle mae troseddu'n gyffredin, fel lleiniau cymunedol, lleoedd chwarae a mannau parcio;
- nodweddion dylunio sy'n helpu i ddiffinio mannau cyhoeddus a mannau preifat yn eglur. Mae angen atebion dylunio sy'n osgoi "meddylfryd gwarchae". Enghraifft o hyn fyddai defnyddio terfyn symbolaidd, fel newid yr arwyneb, neu gulhau, sy'n ei gwneud yn haws i ddiffinio'r gofod amddiffynadwy;
- defnyddio planhigion i atal mynediad, lle bo hynny'n briodol, a dewis a lleoli rhywogaethau o blanhigion yn ofalus er mwyn lleihau'r cyfle i droseddu heb i neb weld;
- darparu goleuadau stryd digonol.

Y Drifft, Y Rhyl, Sir Ddinbych



# 6. Awdurdodau Cynllunio Lleol

## Polisi a Chyngor Dylunio

6.1 Mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am baratoi cyngor dylunio ar gyfer eu hardaloedd, gan gymryd y canllawiau polisi cenedlaethol i ystyriaeth ac adlewyrchu'r cyd-destun lleol a materion lleol yn ogystal. Dylid lledaenu'r cyngor hwnnw drwy gynlluniau datblygu a thrwy amrediad eang o ganllawiau cynllunio atodol. Wrth baratoi cyngor, dylai'r awdurdodau cynllunio lleol nodi'r grŵp o ddefnyddwyr neu'r unigolion y bwriedir y cyngor ar eu cyfer, a dylent gydweithredu i sicrhau mai'r cyngor hwnnw, o ran cynnwys, fformat a math, yw'r mwyaf priodol ar gyfer anghenion y defnyddwyr. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried sut y gallant sicrhau eu bod yn ymateb i faterion lleol sy'n destun pryder wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol. Gall hyn olygu ystyried sut i gymryd rhan yn ystyrlon drwy ffyrdd newydd yn y broses o lunio polisi ac o baratoi canllawiau cynllunio atodol. Dylai lefel cyfranogiad y gymuned fod yn ddigonol i adlewyrchu anghenion a phryderon y defnyddwyr terfynol a buddiannau'r gymuned a busnesau yn ystod pob cam o'r broses ddylunio.

## Cynlluniau Datblygu

6.2 Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol ailadrodd polisi cenedlaethol ond dylent gynnwys polisïau cadarn a chlir ar ddylunio yn eu cynlluniau datblygu. Dylai'r rhain ymdrin â materion lleol a dylent gael eu seilio ar dystiolaeth berthnasol. Dylent bennu disgwyliadau'r awdurdod cynllunio o ran dylunio. Ni ddylent bennu arddulliau pensaernïol na chwaeth benodol ond dylent sicrhau dylunio da fel sy'n berthnasol i'r cyd-destun lleol (arbenigrwydd lleol). Dylai polisïau lleol o'r fath adlewyrchu'r amcanion dylunio da a nodir yn Adran 2.

6.3 O ran cynlluniau datblygu, efallai y bydd rhaid wrth bolisi dylunio strategol, generig a thrawsbynciol er mwyn gwireddu'r strategaeth sy'n cael ei ffafrio ac amcanion y cynllun. Gall cynlluniau gynnwys polisïau dylunio sydd wedi'u targedu ar gyfer ardaloedd o bwys lle ceir newid neu ardaloedd a warchodir, safleoedd strategol neu rai mathau o ddatblygu. Os oes materion penodol yn ardal awdurdod cynllunio lleol sy'n debygol o fod yn berthnasol i gynnwys datganiadau dylunio a mynediad a/neu fod bwriad i gynhyrchu canllawiau cynllunio atodol, dylai'r cynllun datblygu gyfeirio at y rhain.



47 Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion, Aberystwyth

*Cyflawni safonau uchel o ran adeilad cynaliadwy*

6.4 Gall y cynllun datblygu nodi'r angen i ymgeiswyr ymdrin â'r gofynion dylunio a mynediad statudol yn fwy trylwyr nag a awgrymir mewn polisi cenedlaethol, cyhyd â bod tystiolaeth i gyfiawnhau gweithredu felly. Rhaid i ddatganiad dylunio a mynediad gynnwys arfarniad o gyd-destun y datblygiad bob amser, gan gynnwys polisïau perthnasol sydd wedi'u nodi yn y cynllun datblygu, polisi cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau polisi perthnasol eraill.



48 | Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Parc Ynni Baglan

*Gall awdurdodau lleol gynnig arweiniad ar ddylunio cynaliadwy drwy eu hadeiladau eu hunain*

## Datblygu Polisïau Adeiladau Cynaliadwy Lleol

6.5 Gall amgylchiadau lleol roi cyfleoedd i awdurdodau cynllunio lleol bennu gofynion lleol ar safleoedd strategol a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) sy'n rhagori ar y safonau ar gyfer adeiladau cynaliadwy a nodir yn y Rheoliadau Adeiladu.

6.6 Dylai awdurdodau cynllunio gymhwyso'r polisi cynllunio cenedlaethol i'w hamgylchiadau lleol ac ystyried cyfleoedd i hyrwyddo amcanion sylfaenol y polisi wrth symud tuag at adeiladau mwy cynaliadwy a di-garbon yng Nghymru. Ceir cyngor pellach yn y Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy[34].

6.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi canllawiau ar ddewis safleoedd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Fel rhan o'r asesiad hwn, dylid ystyried potensial safleoedd strategol i ddarparu adeiladau cynaliadwy (gan gynnwys adeiladau di-garbon). Dylai datblygiad newydd gael ei leoli fel y gellir manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyrraedd safonau adeiladau cynaliadwy uwch. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys lleoli safleoedd â defnydd penodol gyda'i gilydd er mwyn gwneud cynlluniau gwresogi cymunedol yn fwy hyfyw drwy ddarparu llwyth gwres digonol.

## Safleoedd Strategol

### Cyfleoedd a chyfyngiadau mewn safleoedd

6.8 Bydd gallu safle i gyrraedd safon ofynnol ar gyfer adeiladau cynaliadwy yn dibynnu ar y cyfleoedd a'r cyfyngiadau technegol sy'n bresennol. Gall lleoliad, cynllun, math, maint a chymysgedd datblygiad gyflwyno cyfleoedd a chyfyngiadau o ran darparu'r amrywiaeth o atebion dylunio amgylcheddol gynaliadwy sydd eu hangen i gyrraedd safon ar gyfer adeiladau cynaliadwy.

[34] *Llywodraeth Cymru (2014) Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy)*

6.9 Er enghraifft, gallai datblygiadau dwyseddau uwch a defnydd cymysg olygu bod gwresogi, oeri a phŵer cymunedol (a lleihau defnydd o ynni mewn trafnidiaeth) a gyflenwir gan dechnolegau carbon isel/di-garbon yn ddichonol o safbwynt technegol ac yn hyfyw yn ariannol. Ar y llaw arall, gall adeiladau uchel olygu ei bod yn llai posibl gosod paneli solar ar adeiladau cyfagos am eu bod yn eu cysgodi. Rhestrir rhai o'r ffactorau hyn isod, ond amgylchiadau'r safle penodol fydd yn dylanwadu ar ei botensial i gyflawni'r safonau uwch.

| Ffigur 4 | Ffactorau wrth asesu'r potensial am safonau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol |
|---|---|

- Y tirwedd presennol a nodweddion topograffeg
- Argaeledd rhwydwaith gwresogi rhanbarthol lleol
- Llwyth ynni/gwres ar y safle neu gerllaw iddo sy'n gwella hyfywedd system ynni leol
- Cwmni Gwasanaethau Ynni presennol neu arfaethedig
- Amodau ffafriol ar y safle ar gyfer technoleg ynni carbon isel a di-garbon (h.y. cyflymder gwynt)
- Datblygiadau dwyseddau uwch a defnydd cymysg
- Y math o bridd ar safle
- Safleoedd mewn perygl o lifogydd
- Darparu cyfleusterau ailgylchu ym mhob rhan o'r safle
- System casglu gwastraff yr awdurdod lleol
- Gwerth ecolegol presennol y safle
- Hygyrchedd y safle i rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus
- Agosrwydd at amwynderau lleol hygyrch
- Ffactorau eraill a fyddai'n ei gwneud yn bosibl cyflawni safonau adeiladau cynaliadwy ar safle strategol.

6.10 Dylai awdurdodau cynllunio gydweithio â datblygwyr, tirfeddianwyr a'r gymuned i nodi a thrafod y cyfleoedd i gyflawni safonau adeiladau cynaliadwy uwch ar safle strategol. Rhan bwysig o'r broses hon fydd ystyried a yw gofynion lleol yn hyfyw ac na fyddant yn rhwystr afresymol i ddatblygiad neu dwf arfaethedig, gan gynnwys y broses o ddarparu tai fforddiadwy.

### Gofynion lleol ar gyfer adeiladau cynaliadwy

6.11 Wrth gynnig unrhyw ofynion lleol ar gyfer safonau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol, rhaid i awdurdodau cynllunio allu rhoi digon o gyfiawnhad drwy sail dystiolaeth.

6.12 Dylai gofynion lleol ar gyfer safonau adeiladau cynaliadwy ar safleoedd strategol:

- gael eu nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol, er mwyn sicrhau y cânt eu harchwilio gan arolygydd annibynnol. Mae hyn er mwyn sicrhau y cynhelir ymgyngoriadau a phrofion priodol mewn perthynas â safonau a gofynion er mwyn sicrhau bod eu huchelgais yn adlewyrchu potensial lleol a'u bod yn gyraeddadwy;
- ymwneud â safle strategol fel y nodir gan yr awdurdod cynllunio lleol yn y Cynllun Datblygu Lleol;

- cael eu pennu yn nhermau cyflawni safonau adeiladau cynaliadwy a ddisgrifiwyd yn genedlaethol;
- cael eu pennu yn nhermau lefel benodol yn unig o safonau adeiladau cynaliadwy, ac ni ddylent geisio nodi categorïau neu gredydau unigol y dylid eu cyflawni (h.y. ynni/$CO_2$);
- sicrhau bod y gofyniad yn gyson â newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu nawr ac yn y dyfodol, ac ystyried yr amserlenni hyn wrth bennu safonau adeiladau cynaliadwy uwch;
- bod yn gyson ag amcanion allweddol gwaith dylunio da;
- osgoi pennu polisïau ar gyfer ardaloedd cyfan sy'n cynnwys gofynion ar gyfer safonau adeiladau cynaliadwy, oni bai y gellir rhoi cyfiawnhad digonol dros wneud hynny.

### Y Sylfaen Dystiolaeth

6.13 Wrth baratoi polisïau mewn Cynllun Datblygu Lleol sy'n anelu at safonau adeiladau cynaliadwy uwch, bydd angen i awdurdodau lleol bennu'r canlynol:-

- bod yr hyn a gynigir yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyfyw, gan ystyried costau cyffredinol paratoi safleoedd ar gyfer y farchnad (gan gynnwys costau unrhyw seilwaith ategol angenrheidiol) a'r angen i osgoi unrhyw effaith andwyol ar anghenion cymunedau o ran datblygu;
- yr angen am safon adeiladau cynaliadwy uwch ar y safle hwnnw sy'n mynd y tu hwnt i'r safon a ddisgwylir gan Reoliadau Adeiladu;
- pa gyfleoedd penodol i'r safle sydd ar gael i alluogi adeilad/datblygiad i gyflawni safon adeiladau cynaliadwy uwch;
- y costau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â chyrraedd safonau adeiladau cynaliadwy uwch.

## Canllawiau Cynllunio Atodol

6.14 Mae'n fwy buddiol ymdrin â chanllawiau dylunio manwl, boed y rheini'n seiliedig ar bwnc neu ardal neu'n gyfyngedig i safle unigol, drwy ganllawiau cynllunio atodol. Efallai y bydd yr awdurdodau cynllunio lleol am baratoi canllawiau dylunio cyffredinol sy'n nodi gweledigaeth yr awdurdod, y cyd-destun lleol i ddatganiadau dylunio a mynediad, y broses ddylunio, ei ddisgwyliadau o ran ansawdd y dylunio ynghyd â disgrifiad o nodweddion yr ardal ac unrhyw safonau adeiladu cynaliadwy perthnasol. Fel arall, bydd y mathau o ganllawiau cynllunio atodol sy'n berthnasol i faterion dylunio yn perthyn i'r categorïau canlynol:

**Penodol i ardal**

Addas ar gyfer llywio datblygu mewn ardaloedd allweddol megis canol trefi, ardaloedd tirwedd arbennig neu ardaloedd cadwraeth, neu gymdogaeth benodol neu ardal drefol arbennig.

Mae'r mathau o ganllawiau cynllunio atodol penodol i ardal yn cynnwys:

**Fframweithiau neu strategaethau dylunio trefol**

Pan fo'u hangen i lywio a hyrwyddo newid. Dylai'r rhain esbonio sut mae polisi cenedlaethol a pholisïau'r cynllun datblygu yn berthnasol i'r ardal, gan gynnwys y ddarpariaeth o ran seilwaith, a nodi egwyddorion dylunio cynhwysfawr, cysylltu'r strategaeth â chynigion ymarferol a darparu canllawiau ar benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylent ymdrin ag ardal mewn dull tri dimensiwn fel nad yw'r canllawiau'n cael eu cyfyngu i ymdrin â defnydd, safonau dwysedd a threfniadau mynediad. Dylent hefyd ddangos sut y gellir cysylltu strydoedd, sgwariau a mannau agored; sut i reoli patrymau symud pobl, pa un a ydynt yn teithio ar droed, ar feic, mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus; a diffinio uchder, crynodiad a swmp yr adeiladau mewn perthynas â'r gofod sydd o'u cwmpas;

**Gall arweinlyfrau cymdogaeth neu ddosbarth, crynodebau dylunio cefn gwlad, arweinlyfrau dylunio tirwedd, datganiadau dylunio pentrefi a chynlluniau gweithredu trefi neu bentrefi berthyn i'r categori hwn hefyd.**

**Codau dylunio**

A allai gynnwys lluniadau neu ddiagramau manwl, yn nodi'n fanwl gywir yr egwyddorion dylunio a chynllunio a gymhwysir i ddatblygiad mewn man penodol.

**Penodol i safle**

Pan fo angen canllawiau i lywio datblygiad safle penodol, neu pan fo angen cyflwyno gwybodaeth am nodweddion safle penodol yn unol â pholisi lleol/cenedlaethol.

Gellir defnyddio diagramau cysyniad, canllawiau amlen adeiladu a brasluniau tri dimensiwn o ffurfiau adeiladu a gofodau i egluro'r canllawiau. Ni ddylid rhagnodi dyluniad nac awgrymu arddull benodol.

Gallai'r rhain gynnwys:

**Briffiau datblygu neu gynllunio** i esbonio sut y dylid cymhwyso polisïau'r cynllun datblygu i safle penodol. Dylai'r cyfarwyddiadau:

- amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y datblygiad;
- adlewyrchu'r arfarniad o'r safle a'r cyd-destun;
- datgan eu hamcan(ion) a dangos sut y gellid cymhwyso polisïau dylunio/cynwysoldeb y cynllun datblygu i'r safle;
- darparu arfarniad sylfaenol o'r ardal a'r safle, gan gynnwys y cyfyngiadau a'r cyfleoedd ar y safle, cyflwr y pridd, y seilwaith, y drafnidiaeth bresennol a'r mynediad;
- nodi'r patrymau symud arfaethedig, y defnyddiau, arwynebeddau, cymysgedd o ddeiliadaethau, dwyseddau datblygu ac amcanion dylunio perthnasol eraill;
- ysbrydoli safon uchel o ddylunio ac adlewyrchu'r ymgynghori a wnaed.

**Penodol i bwnc**

Pan fo angen canllawiau mewn perthynas â materion neu ddefnyddiau penodol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

**Arweinlyfrau dylunio**

I roi cyngor manwl ar sut y gellir gweithredu mathau penodol o ddatblygu yn unol â pholisi cenedlaethol a pholisïau'r cynllun datblygu. Gall arweinlyfrau dylunio gwmpasu amrediad eang o bynciau dylunio a rheoli datblygu, gan gynnwys amlinellu'r hyn sy'n ofynnol yn lleol o ran datganiadau dylunio a mynediad ar gyfer defnyddiau tir penodol, dyluniad wynebau siopau, celfyddyd gyhoeddus, a/neu ddylunio'r dirwedd. Dylid bod yn arbennig o ofalus, mewn arweinlyfrau sy'n ymdrin â defnyddiau penodol (megis tai), i hyrwyddo amrywiaeth ac annog integreiddio â defnyddiau tir eraill. Dylai canllawiau dylunio gael eu defnyddio i hybu amrywiaeth a chyfosod gwahanol ddefnyddiau.

**Canllawiau ar ardaloedd sydd i gael eu hadfywio**

Fel arfer byddai'r rhain yn cynnwys asesiad trylwyr o'r nodweddion presennol, gan amlygu'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd sy'n bodoli. Yna byddent yn nodi'r berthynas rhwng cyfleoedd i gynyddu'r dwysedd a'r rhwydwaith trafnidiaeth a symud; ac yn crynhoi'r prif adeiladau masnachol a chymunedol wrth brif lwybrau a chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai angen hefyd ystyried mannau cyhoeddus integredig er mwyn gwneud yn fawr o'u cyfraniad gweledol a'u cyfraniad o ran hygyrchedd i'r rhwydwaith symud hwn. O ran ffurf yr adeiladau, dylai'r canllawiau fel rheol annog datblygiadau sy'n adlewyrchu patrwm presennol y strydoedd a'r blociau lleol, os yw'r patrwm hwnnw yn gwneud cyfraniad positif at hunaniaeth leol ac yn helpu hygyrchedd. Gallent hefyd gynnwys cyngor ar faterion fel graddfa neu'r amgylchfyd cyhoeddus. Dylid ceisio datblygu'r ardal drefol, boed yn gyfan neu rannau ohoni, mewn ffordd hollgynhwysol a chydlynol, sy'n parchu arbenigrwydd lleol.

**Cyngor ar y newid yn yr hinsawdd a dylunio adeiladau cynaliadwy**

Fe'u defnyddir i ddarparu mwy o fanylion am faterion yn ymwneud â lleoli o ystyried y microhinsawdd, dylunio ar gyfer gwresogi solar goddefol a gweithredol, cyfeiriadedd o safbwynt golau haul a chysgod rhag prifwyntoedd, rheoli dŵr yn gynaliadwy, defnyddio ffurf y tir a phlannu, a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd i gynnal a/neu gynyddu bioamrywiaeth.

**Arwyddion a hysbysebion**

Gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol i egluro disgwyliadau'r awdurdod cynllunio lleol o dan amgylchiadau gwahanol. Wrth brosesu ceisiadau am ganiatâd hysbysebu a thrwy eu swyddogaethau eu hunain yn ymwneud ag arwyddion ar strydoedd a chyfleu gwybodaeth yn yr amgylchfyd cyhoeddus, mae gan awdurdodau cynllunio lleol gyfrifoldeb hefyd i osod safonau dylunio uchel.

6.15 Er mai'r awdurdodau cynllunio lleol fydd yn cynhyrchu canllawiau cynllunio atodol, mae'n bwysig datblygu canllawiau sy'n ymdrin â dylunio drwy ymgynghori â'r cyhoedd a'r sector preifat yn ogystal â chyrff eraill sydd â diddordeb. Dylid gofalu bod modd i bawb gyfranogi drwy ddewis lleoliad ac amserau priodol a bod y deunydd a gynhyrchir yn hawdd ei ddeall. Mae trefniadau sy'n rhoi llais i garfannau perthnasol wrth wneud penderfyniadau yn help i greu cymunedau mwy cynaliadwy, ac yn arwain at ddatblygu sy'n ymateb yn well i'r cyd-destun lleol[35].

## Rheoli Datblygu

6.16 Mae ymddangosiad a swyddogaeth datblygiad arfaethedig, ei faint a'i berthynas â'i amgylchfyd yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apelau cynllunio. Ni ddylid derbyn datblygiadau nad ydynt yn rhoi sylw i amcanion dylunio da.

## Datganiadau Dylunio a Mynediad

6.17 Mae'n ofyniad statudol fod datganiad dylunio a mynediad[36] yn cael ei gyflwyno gyda rhai mathau o geisiadau am ganiatâd cynllunio a cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Ceir canllawiau pellach ynglŷn â'r gofyniad am ddatganiad dylunio a mynediad mewn canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru[37].

6.18 Cyfrwng cyfathrebu yw'r datganiad sy'n egluro sut y cafodd amcanion dylunio da (sy'n cynnwys egwyddorion dylunio cynhwysol) (gweler Adran 2) eu hystyried o'r cychwyn yn y broses ddatblygu. Eir ati yn y canllawiau i amlinellu pa fudd a gaiff datblygwyr, ymgeiswyr, cymunedau lleol ac awdurdodau cynllunio lleol o'r datganiad.

## Trafodaethau Cyn Cyflwyno Cais[38]

6.19 Un o briod amcanion trafodaethau cyn cyflwyno cais yw nodi'r materion dylunio a mynediad allweddol a fydd yn codi o gynnig datblygu ar y cychwyn. Bydd y sail i'r trafodaethau ynglŷn â dylunio wedi cael ei gosod gan bolisi cenedlaethol a pholisïau perthnasol y cynllun datblygu a chanllawiau cynllunio atodol. Dylai'r trafodaethau ganolbwyntio ar gyflawni amcanion dylunio'n dda ac ymdrin â'r materion y mae gofyn rhoi sylw iddynt yn y datganiad dylunio a mynediad (gweler Atodiad 1). Dylai swyddogion cynllunio ddatgan yn glir a yw'r datganiad dylunio a mynediad a'r weledigaeth a'r amcanion arfaethedig yn unol â pholisi ac â'r canllawiau cynllunio atodol. Ni fyddid fel arfer yn ymdrin â materion dylunio manwl tan yn ddiweddarach yn y broses

[35] *Canllawiau defnyddiol - Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (2005) – A Model Design Guide for Wales – Residential Development (http://dcfw.org/a-model-design-guide-for-wales-residential-development/)*
*WLGA (2007) Shaping the Way we Work, Live and Play (www.wlga.gov.uk/datblygu-cynaladwy/cyflwyno-datblygiad-cynaliadwy-drwyr-system)*

[36] *Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) (www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6965)*
*Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/793/contents/made)*

[37] *Llywodraeth Cymru (2016)Llawlyfr Rheoli Datblygu (www.gov.wales/topics/planning/?lang=cy)*
*Comisiwn Dylunio Cymru (2014) Design and Access Statements in Wales (http://dcfw.org/design-and-access-statements-in-wales/)*
*Llywodraeth Cymru (2016) Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio – Canllawiau ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy)*

[38] *Welsh Government (2012) Practice Guide: Realising the Potential of Pre-application Discussions (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?lang=en)*
*Llywodraeth Cymru (2016)Llawlyfr Rheoli Datblygu (www.gov.wales/topics/planning/?lang=cy)*

wrth iddi esblygu. Dylai'r trafodaethau amlygu hefyd pa wybodaeth y byddai ar yr awdurdod cynllunio lleol ei hangen ar gyfer ceisiadau cynllunio amlinellol.

6.20 Yn y ddogfen Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle[39] mae cyfres o gwestiynau sy'n ymwneud â dadansoddi'r safle a'r cyd-destun. Gall y cwestiynau hynny lywio cynigion datblygu a bod o gymorth i swyddogion cynllunio yn ystod trafodaethau a gynhelir cyn i gais gael ei gyflwyno. Gall y cwestiynau hynny ddangos pa fath o ddadansoddiad sydd wedi'i gynnal a sut y mae'r cynigion sy'n cael eu datblygu yn ymateb i'r nodweddion unigryw a geir ar y safle. Gall y canllawiau hyn hwyluso trafodaeth adeiladol sy'n seiliedig ar wybodaeth yn ystod y cam cyn cyflwyno cais ac mae'n fodd i fynd ati'n gynnar yn y broses i nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir o ran dadansoddiad ystyrlon.

6.21 Gyda chynigion mawr cymhleth, gellir cyflwyno datganiad dylunio a mynediad drafft i'r awdurdod cynllunio lleol a rhanddeiliaid cyn cyflwyno cais, er mwyn iddynt ei ystyried. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol am gyfeirio'n benodol at yr arfer hwn yn y "canllawiau" a ddarperir ganddynt gyda ffurflenni cais cynllunio.

**Sgiliau**

6.22 Mae'n bwysig fod sgiliau dylunio proffesiynol ar gael i'r awdurdodau cynllunio lleol. Gellir sicrhau hynny drwy gyflogi staff sydd â'r sgiliau priodol, drwy rannu sgiliau gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill, neu drwy ddefnyddio ymgynghorwyr. Hefyd, gallai awdurdodau cynllunio lleol ddewis sefydlu timau dylunio "mewnol" lle mae'r arbenigedd perthnasol yn bodoli. Gallai awdurdodau cynllunio lleol hefyd ddefnyddio panelau dylunio ymgynghorol annibynnol (megis Panel Adolygu Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru) a fyddai efallai yn cynnwys penseiri, dylunwyr trefol, ecolegwyr, peirianwyr, swyddogion rheoli adeiladu, arbenigwyr ynni, arbenigwyr cynaliadwyedd a swyddogion mynediad y gellid defnyddio'u sgiliau yn ôl y galw. Fodd bynnag, rhaid i'r aelodaeth beidio ag arwain at wrthdaro rhwng buddiannau. Gallai panelau dylunio fod yn ddefnyddiol iawn, nid yn unig i asesu ceisiadau cynllunio dadleuol ond hefyd i baratoi polisïau a chanllawiau dylunio. Gwella sgiliau a gallu dylunio ymhlith swyddogion yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth aelodau etholedig o ddylunio yw'r amcan.

[39] *Llywodraeth Cymru (2016) Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle (www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/?skip=1&lang=cy)*

Canol Tref Machynlleth



# Atodiad 1

## Ffynonellau a Gwybodaeth Bellach


The Architecture Foundation (2000) Creative Spaces: A Toolkit for Participatory Urban Design

Biddulph, M (2001) Home Zones – A Planning and Design Handbook

Biddulph, M (2006) Introduction to Residential Layout

Cadw – Canllawiau Technegol *(http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/technical guidance/?skip=1&lang=cy)*

DCLG (2004) Safer Places: The Planning System and Crime Prevention *(www.gov.uk/government/publications/safer-places-the-planning-system-and-crime-prevention)*

Comisiwn Dylunio Cymru – Cyhoeddiadau *(http://dcfw.org/?category=publications)*

Yr Adran Drafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Manual for Streets *(www.gov.uk/government/publications/designing-residential-streets-manual)*

The Chartered Institute of Highways and Transportation (2010) Manual for Streets 2 *(www.gov.uk/government/publications/manual-for-streets-2)*

English Partnerships/Housing Corporation/UDAL/Roger Evans Associates/Llewelyn-Davies (2007) Urban Design Compendium 1 & 2 *(udc.homesandcommunities.co.uk/urban-design-compendium?page_id&page=1)*

Harris, C & Borer, P (2005) The Whole House Book: Ecological Building Design and Materials

Highways Agency (2013) Design Manual for Roads and Bridges *(www.dft.gov.uk/ha/standards/dmrb/)*

Historic Towns Forum (2008) Manual for Historic Streets

Y Sefydliad Materion Cymreig (2000) Designing Success – The Case for a Welsh Commission for Architecture and Design

Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (2005) A Model Design Guide for Wales – Residential Development *(http://dcfw.org/a-model-design-guide-for-wales-residential-development/)*

Ymddiriedolaeth y Tywysog, English Partnerships, DETR a CPRE (2000) Sustainable Urban Extensions: Planned through Design

Secured by Design *(www.securedbydesign.com/)*

TCPA (2007) Achieving a Suburban Renaissance – The Policy Challenges

TCPA (2006-7) By Design series – Climate Change Adaptation, Sustainable Energy and Biodiversity *(www.tcpa.org.uk/pages/by-design-guides.html)*

TCPA (2007) Best Practice in Urban Extensions and New Settlements *(www.tcpa.org.uk/data/files/nsue.pdf)*

Urban Task Force (2005) Towards a Strong Urban Renaissance

Urban Design Group (2003) Urban Design Guidance

Llywodraeth Cymru (2014) Rheoliadau Adeiladu – Rhan B (Diogelwch Tân) *(www.gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/part-b-fire/?skip=1&lang=cy)*

Llywodraeth Cymru (2014) Rheoliadau Adeiladu – Rhan L (Arbed Tanwydd ac Ynni) *(www.gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/part-l-energy/?skip=1&lang=cy)*

Llywodraeth Cymru (2014) Canllawiau Ymarfer – Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy *(www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/practice-guidance-planning-for-sustainable-buildings/?skip=1&lang=cy)*

Llywodraeth Cymru (2016) Dadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle *(www.gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/?skip=1&lang=cy)*

Y Swyddfa Gymreig (1996) 61/96: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol – Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth *(www.gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshofficecirculars/circular6196/?skip=1&lang=cy)*

CLlLC (2007) Shaping the Way We Work, Live and Play *(www.wlga.gov.uk/datblygu-cynaladwy/cyflwyno-datblygiad-cynaliadwy-drwyr-system)*

## Hygyrchedd

Barker, P et al (1995) Building Sight

Bright, K et al (2004) Buildings for All to Use

Burton, E & Mitchell, L (2006) Inclusive Urban Design: Streets for Life

BS8300: 2009 – Design of Buildings and their Approaches to Meet the Needs of Disabled People

CABE (2006) The Principles of Inclusive Design (They Include You) *(http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20110118095356/http:/www.cabe.org.uk/publications/the-principles-of-inclusive-design)*

Cadw (2006) Access Strategy for Monuments in State Care *(www.cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Cadwaccessstrategymonumentsstatecare_EN_CY.pdf)*

Cadw (2002) Goresgyn y Rhwystrau, Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol *(www.cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Overcoming_the_Barriers_CY.pdf)*

Changing Places Consortium (2013) Changing Places: the practical guide *(http://www.changing-places.org/)*

DETR (2002) Guidance on Use of Tactile Paving Surfaces *(www.gov.uk/government/publications/guidance-on-the-use-of-tactile-paving-surfaces)*

Department for Transport (2002) Inclusive Mobility: A guide to Best Practice on Access to Pedestrians and Transport Infrastructure *(www.gov.uk/government/publications/inclusive-mobility)*

Awdurdod Llundain Fwyaf (2004) Accessible London: achieving an inclusive environment (The London Plan Supplementary Planning Guidance) *(www.london.gov.uk/sites/default/files/gla_migrate_files_destination/archives/spg_accessible_london.pdf)*

Hall, P & Imrie, R (2001) Inclusive Design: Designing and Developing Accessible Environments

Historic England (2015) Easy Access to Historic Landscapes *(www.historicengland.org.uk/images-books/publications/easy-access-historic-landscapes/)*

ODPM (2003) Planning and Access for Disabled People: A Good Practice Guide *(www.gov.uk/government/publications/planning-and-access-for-disabled-people-a-good-practice-guide)*

RNIB (2000) Sign Design Guide (Peter Barker and June Fraser, 2000)

RNIB (1995) Building Sight

Sawyer, A & Bright, K (2006) The Access Manual – 2nd Edition

Gweithrediaeth yr Alban, Yr Adran Ddatblygu (2006) Inclusive Design *(www.gov.scot/Publications/2006/03/07164427/0)*

Llywodraeth Cymru (2014) Rheoliadau Adeiladu – Rhan M (Mynediad i Adeiladau a Defnydd Ohonynt) *(http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/publications/part-m-access-and-use/?skip=1&lang=cy)*

# Atodiad 2

## Cysylltiadau

Y Gymdeithas Mynediad (Cymru) *www.accessassociation.co.uk/*

Building Research Establishment (BRE) *www.bre.co.uk*

Canal & River Trust *https://canalrivertrust.org.uk/cymraeg*

Yr Ymddiriedolaeth Garbon *www.carbontrust.com/client-services/wales/?lng=cy*

Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru *www.civictrustcymru.org.uk*

Comisiwn Dylunio Cymru *http://dcfw.org/*

Anabledd Cymru *www.disabilitywales.org/cy/*

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni *www.energysavingtrust.org.uk/wales/*

Sefydliad Tirwedd Cymru (LIW) *www.landscapeinstitute.org*

Cyfoeth Naturiol Cymru *www.naturalresources.wales/?lang=cy*

Cymorth Cynllunio Cymru *www.planningaidwales.org.uk/?lang=cy*

Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref *www.tcpa.org.uk*

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru *www.architecture.com*

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru *www.rtpi.org.uk/the-rtpi-near-you/rtpi-cymru/*

Sustrans Cymru *www.sustrans.org.uk/cy/wales*

Llywodraeth Cymru *http://gov.wales/?skip=1&lang=cy*

# Atodiad 3

## Cydnabyddiaeth

| | | |
|---|---|---|
| Tudalen 2 | Y Senedd, Caerdydd | © Hawlfraint y Goron (2009) Croeso Cymru |
| Tudalen 5 | Coach House yng Nghaerdydd | Touchbase Design Ltd |
| Tudalen 8 | Tŷ Esplanade, Porthcawl | Stride Treglown Davies |
| Tudalen 12 | Dyffryn Ceiriog | © Hawlfraint y Goron (2009) Croeso Cymru |
| Tudalen 26 | Galeri Caernarfon | Ffotograffau Daniel Hopkinson |
| Tudalen 54 | Y Drifft, Y Rhyl, Sir Ddinbych | Cyngor Sir Ddinbych |
| Tudalen 64 | Canol Tref Machynlleth | © Hawlfraint y Goron (2009) Croeso Cymru |
| 01 | Canolfan Gelf Rhuthun | Penseiri Sergison Bates,<br>Ffotograffydd: Dewi Tannant |
| 02 | Ymgynghori ar waith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| 03 | Storfa gychod newydd, Penfro | Penseiri Davies Sutton |
| 04 | Parc Cathays, Caerdydd | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| 05 | Capel a addaswyd,<br>Rhodiad y Brenin, Tyddewi | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Rhodiad y Brenin, Tyddew |
| 06 | Canolfan Gelf Sain Dunwyd,<br>Llanilltud Fawr | Penseiri Loyn & Co |
| 07 | Ardal yr Hen Fragdy, Caerdydd | Penseiri Powell Dobson |
| 08 | Treflun Rhuthun yn cynnwys y cloc | Llywodraeth Cymru, Llyfrgell y cloc<br>Ffotograffau Cymru: Steve Benbow (chwith) |
| 09 | Canolfan yr Amgylchedd, Abertawe | Dinas a Sir Abertawe |
| 10 | Rhodfa Castell Caernarfon | Cadw |
| 11 | Canolfan Feddygol Llanfyllin | Penseiri Martin Rogers, Archial cyf |
| 12 | Y Nook, Oxwich | Penseiri Dewi Evans cyf |
| 13 | Tŷ Gwala, Rhydri | Penseiri Loyn & Co |
| 14 | The Hand, Sgwâr Lancaster, Llanrwst | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 15 | Drybridge, Sir Fynwy<br>a Chyngor Sir Fynwy | Penseiri Ainsley Gommon ar gyfer<br>Cymdeithas Dai Charter |
| 16 | Cysgod rhag yr haul yn SA1,<br>Abertawe | Penseiri Loyn & Co |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Llwybrau beicio a cherdded | Sustrans |
| 18 | Porthladd Caergybi | Safle |
| 19 | Canolfan Gelf Rhuthun | Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru |
| 20 | Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth | Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| 21 | Paneli Haul, Coach House, Caerdydd | Touchbase Design cyf |
| 22 | Stordy Adnams | AukettFitzroyRobinson: Ffotograffydd Alex Hill |
| 23 | Dinbych-y-pysgod | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| 24 | Canolbarth Cymru | © Hawlfraint y Goron (2009) Croeso Cymru |
| 25 | Adeiladau Rhestredig yn Sgwâr Bethel, Aberhonddu | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Pensaer James Brotherhood, Associated ar gyfer Boots Properties ccc |
| 26 | Addasiad St Clare | Cyngor Sir y Fflint |
| 27 | Parc Drift, Y Rhyl, Sir Ddinbych | Cyngor Sir Ddinbych |
| 28 | Y Gweithfeydd, Glynebwy | Llywodraeth Cymru |
| 29 | Beddgelert, Parc Cenedlaethol Eryri | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| 30 | Ystradfellte | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Penseiri Bailey Roberts Jones Cyf, ar gyfer Dŵr Cymru |
| 31 | Astudiaeth o goridor rheilffordd Aman a Gwendraeth | RPS Chapman Warren ar gyfer Partneriaeth Gwendraeth Aman |
| 32 | Porthmadog | Sustrans, Ffotograffydd: Julian Cram |
| 33 | Llyfrgell Caerdydd | Cyngor Caerdydd |
| 34 | Canolfan y Mileniwm, Caerdydd | Jon Page Jenkins |
| 35 | Crucywel | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Woodeson Drury, Coutntryside Properties Ltd ar gyfer Acorn Televillages Cyf |
| 36 | Felindre Farchog, Trefdraeth, Sir Benfro | Awrdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| 37 | Technium OpTIC | Llywodraeth Cymru |
| 38 | Swyddfeydd Penderyn | Penseiri David Archer Ffotograffydd: Keith Collie |
| 39 | Systemau Draeniad Cynaliadwy, Pont-y-clun | MWH |

| | | |
|---|---|---|
| 40 | 'Cynffon y Barcud', Aberafan, Port Talbot | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| 41 | Sedd yng Nghonwy | Safle |
| 42 | Celfyddyd Gyhoeddus yn Wrecsam | Safle |
| 43 | Cynllun Celfyddyd Gyhoeddus Fitzhammon Embankment | Cyngor Caerdydd |
| 44 | Arwyddion ar gyfer cerddwyr | Sustrans |
| 45 | Dinbych-y-pysgod | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| 46 | Canol Tref Wrecsam | Safle |
| 47 | Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion, Aberystwyth | Cyngor Sir Ceredigion |
| 48 | Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Parc Ynni Baglan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |